# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** | **PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH, 15 MEHEFIN, 2021 am 2.00 o'r gloch yp** | **TUESDAY, 15 JUNE, 2021 at 2.00 p.m.** |
| **CYFARFOD RHITHIOL WEDI'I FFRYDION'N FYW (AR HYN O BRYD NID OES MODD I'R CYHOEDD FYNYCHU)** | **VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING(AT PRESENT MEMBERS OF THE PUBLIC ARE UNABLE TO ATTEND)** |
| **Swyddog Pwyllgor** **Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O. Jones **(Cadeirydd/Chair),** Dafydd Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Nicola Roberts

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Kenneth P Hughes, R.Ll.Jones

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Glyn Haynes **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Ms. Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Mr. Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Mrs Llio Johnson-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) a Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fwy a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.**

## R H A G L E N

**1** **YMDDIHEURIADAU**

**2** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem of fusnes.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 20)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfodydd canlynol:-

- Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 11 Mawrth, 2021;
- Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 14 Ebrill, 2021;
- Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 18 Mai, 2021.

**4** **CYFLWYNIAD GAN BRIF WEITHREDWR BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR**

Derbyn cyflwyniad gan Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

**5** **ADRODDIAD BLYNYDDOL AR SAFONAU'R GYMRAEG 2020/21** (Tudalennau 21 - 50)

Cyflwyno adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2020/21.

**6** **RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 51 - 56)

Cyflwyno Rhaglen Waith y Pwyllgor.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2021

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr T Ll Hughes MBE, K P Hughes, R Ll Jones, Alun Roberts a Dafydd Roberts.<br><br>Arweinydd y Cyngor – Y Cynghorydd Llinos M Huws (eitemau 4, 5 a 7);<br>Y Cynghorydd Richard A Dew - Deilydd Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (eitem 6).<br><br>Y Cynghorydd D R Thomas |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr (eitem 6),<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (eitem 7),<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai (eitem 6),<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Rheolwr Polisi a Strategaeth (CWO) (eitem 5),<br>Swyddog Polisi (RWJ) (eitem 5),<br>Rheolwr Sgriwtini (AD),<br>Swyddog Sgriwtini (SR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Margaret M Roberts |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn (eitem 4) |

---

Mynegodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad â Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Mr Fôn Roberts ar ei brofedigaeth ddiweddar.

Llongyfarchodd y Cadeirydd Mr Fôn Roberts ar ei benodiad diweddar yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodir uchod.

**2 DATGAN DIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 3 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror, 2021 yn gywir.

**Yn codi o hyn**

Dywedodd y Cadeirydd fod llythyr wedi'i anfon ar ran y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru yn mynegi siom a phryderon y Pwyllgor nad oedd unrhyw gynlluniau yn eu lle o ran arholiadau TGAU a Safon Uwch ar gyfer Haf 2022. Dywedodd y Cadeirydd fod ymateb wedi'i dderbyn oddi wrth y Gweinidog Addysg, Ms Kirsty Williams AS sy'n nodi y byddwn yn derbyn llythyr cyn 6 Ebrill, 2021 i ymateb i'r pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor hwn.

## 4 BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS - CRAFFU AR GYNNYDD A CHYFLAWNI'R CYNLLUN LLESIANT

Cyflwynwyd – adroddiad gan Reolwr Rhaglen, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod yr adroddiad yn tynnu sylw at gynnydd a darpariaeth y Cynllun Llesiant gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Dywedodd fod y pandemig wedi arafu cynnydd yr Is-grwpiau sy'n helpu i weithredu gwaith y Bwrdd, ond erbyn hyn mae'r holl Is-grwpiau'n ailedrych ar eu cynlluniau gwaith. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi parhau i gyfarfod yn ystod cyfnod y pandemig sy'n dangos ymrwymiad y Bwrdd i'r gwaith.

Rhoddodd Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn ddiweddariad am gynnydd yr Is-grwpiau. Dywedodd fod pob un o'r Is-grwpiau'n cael eu harwain gan aelod o'r Bwrdd. Cynhaliwyd gweithdy ym mis Medi 2020 i drafod rôl y Bwrdd wrth adfer ar ôl y pandemig. Cytunwyd mai rôl y Bwrdd yw cadw trosolwg o'r gwaith a wneir ar hyn o bryd gan y sefydliadau. Yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd, heriwyd yr Is-grwpiau i adrodd ar eu gwaith o ran eu cynlluniau gwaith a'u cyflawniadau; bydd Arweinydd pob un o'r Is-grwpiau yn rhoi adroddiad diweddaru i gyfarfod llawn nesaf y Bwrdd. Adroddodd y Rheolwr Rhaglen ar bob Is-grŵp fel a ganlyn:-

- **Is-grŵp Cartrefi –** mae gan yr is-grŵp reolwr prosiect rhan-amser sy'n sicrhau bod y prosiect yn gweithredu'n unol â'r amserlen ac adnoddau disgwyliedig. Diben yr is-grŵp yw chwilio am gyfleoedd i ddatblygu tai arloesol, sy'n ategu ac nid yn dyblygu'r gwaith sy'n deillio o strategaeth dai Ynys Môn. Mae un safle ym Maes Mona, Amlwch wedi'i nodi i'w ddatblygu yn y dyfodol agos.
- **Is-grŵp Newid Hinsawdd –** dros y misoedd diwethaf mae'r is-grŵp wedi canolbwyntio ar ddiwygio eu cynllun gwaith ers yr oedi oherwydd dechrau'r pandemig. Cynhaliwyd gweithdy ym mis Ionawr, 2021 i ddenu cynrychiolaeth ehangach o sefydliadau cyhoeddus. Mae'r is-grŵp wedi nodi bod angen iddynt ystyried sut i ymgysylltu â chymunedau, canolbwyntio ar amcanion hirdymor a nodi rôl pob sefydliad pan fyddant yn wynebu problemau llifogydd.
- **Is-grŵp Integredig Iechyd a Gofal** – mae'r is-grŵp hwn yn enghraifft o arfer da sydd wedi ychwanegu gwerth tuag at gynlluniau cyfredol gyda swyddogion proffesiynol yn gallu rhannu profiadau a chydweithio. Mae'r Is-grŵp yn parhau i

fynd i'r afael ag agweddau penodol fel plant, oedolion, iechyd meddwl, anableddau dysgu a thrawsnewid. Roedd yr angen i gydweithio, rhannu gwybodaeth a sicrhau mynediad hwylus at wasanaethau yn cael ei gydnabod fel nod cyffredin ar gyfer pob ffrwd waith.

- **Is-grŵp y Gymraeg -** Mae Mr Aled Jones Griffith o Goleg Llandrillo a Menai bellach wedi cytuno i arwain yr is-grŵp a fydd yn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd yn y cyfarfod ym mis Mawrth. Bydd yr Is-grŵp yn ystyried ei gynllun gwaith ar gyfer y misoedd nesaf. Bydd yr Is-grŵp yn edrych ar y defnydd o'r Gymraeg wrth i aelodau o'r cyhoedd gysylltu â sefydliadau cyhoeddus am y tro cyntaf a bwriedir cynnal astudiaeth i ystyried yr iaith a ddefnyddir mewn derbynfeydd gyda'r gobaith o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

Cyfeiriodd y Rheolwr Rhaglen at yr Asesiadau Llesiant a'r bwriad yw ymgysylltu ac ymgynghori â thrigolion Ynys Môn o'r 6 ardal llesiant. Bwriedir iddo weithio'n agos gyda'r Cyngor a phartneriaid eraill er mwyn ymgysylltu'n effeithiol a cheisio osgoi dyblygu. Yn ogystal â hyn, bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol erbyn mis Mehefin 2021.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaed y prif bwyntiau canlynol:-

- Codwyd cwestiynau ynghylch sut y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn sicrhau nad yw'r gwaith a wneir yn dyblygu'r gwaith a wnaed eisoes gan yr awdurdodau lleol. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Rhaglen, o ran yr Is-grwpiau sefydledig, fod cynrychiolydd o'r awdurdodau lleol ar bob un o'r is-grwpiau a bod hyn yn rhoi cyfle i dynnu sylw at unrhyw ddyblygu ffrydiau gwaith y mae'r is-grŵp yn bwriadu ymgymryd â nhw a sicrhau ei fod yn ychwanegu gwerth at y prosiectau arfaethedig. Rhoddodd y Prif Weithredwr enghraifft o'r ffrydiau gwaith o ran nodi tir ar gyfer datblygu tai arloesol sydd wedi deillio o waith yr is-grwpiau;
- Codwyd cwestiynau ynghylch dyfodol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gan fod Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn cael ei basio gan y Senedd ar 18 Tachwedd, 2020 a'r Cydbwyllgorau Corfforaethol a sefydlir drwy Gymru. Ystyriwyd y bydd yn her i awdurdodau lleol fynychu a gweithio o fewn gwahanol sefydliadau sefydledig yn y dyfodol. Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd y Cyngor y byddai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn mynd i'r afael â rhwymedigaethau statudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hefyd yn bwysig sicrhau cynrychiolaeth gref yn lleol ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o fewn y trefniant rhanbarthol;
- Codwyd cwestiynau ynghylch rôl y Bwrdd yn ystod y cyfnod adfer yn dilyn y pandemig. Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr y Rhaglen fod yr Is-grwpiau wedi ailedrych ar eu cynlluniau gwaith. Roedd y Bwrdd hefyd wedi cynnal gweithdy ym mis Medi 2020 i drafod rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y gwaith adfer. Disgwylir y bydd sefydliadau unigol yn adrodd i'r Bwrdd i sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud i adfer cymunedau lleol yn dilyn y pandemig. Holodd y Cadeirydd a oedd holiaduron pellach i'w dosbarthu o ran yr asesiadau llesiant; soniodd fod cymunedau Ynys Môn eisoes wedi cael cais i gymryd rhan mewn amryw o holiaduron. Dywedodd fod yr ymateb i'r holiaduron a'r sesiynau ymgysylltu yn ystod cylch olaf yr asesiad llesiant wedi bod yn siomedig. Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr y Rhaglen nad oedd y dull o gasglu tystiolaeth ynglŷn â'r asesiad llesiant y tro hwn wedi'i benderfynu nes ei bod yn glir beth

yw’r gofynion a'r disgwyliadau. Trafodir hyn ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus;

- Codwyd cwestiynau ynglŷn â'r gwaith a wnaed gan yr Is-grŵp Newid Hinsawdd ac a ddylid cynnal trafodaeth ynglŷn â Chynhesu Byd-eang. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Rhaglen fod yr Is-grŵp Newid Hinsawdd yn canolbwyntio ar gydweithio rhwng sefydliadau i fynd i'r afael â materion llifogydd. Mae'r Is-grŵp yn adolygu ei raglen waith i hwyluso gwelliannau i sefydliadau sy'n gweithio yn y cymunedau lleol. Dywedodd yr Aelodau y dylai'r Pwyllgor hwn gael ei ddiweddaru’n rheolaidd am y gwaith a wneir gan yr Awdurdod i leihau ôl troed carbon. Dywedodd y Prif Weithredwr fod gwaith yn cael ei wneud ar faterion yn rhanbarthol fel rhan o'r Strategaeth Genedlaethol i leihau ôl troed carbon. Mae'r Awdurdod yn canolbwyntio ar gynllun strategaeth i leihau newid hinsawdd a lleihau ôl troed carbon o fewn gwasanaethau'r Cyngor a bydd adroddiadau diweddaru rheolaidd ar gael. Dywedodd fod y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cytuno i ganolbwyntio ar faterion llifogydd a rôl ymgysylltu â'r gymuned pan fo cymunedau'n wynebu llifogydd yn eu hardaloedd.

**PENDERFYNWYD nodi cynnydd gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**

**GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.**

## 5 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYDRADDOLDEB 2019/20

Cyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb 2019/20 i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dyletswyddau penodol i helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni dyletswydd gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r dyletswyddau penodol hyn yn cynnwys gofyniad i ddatblygu a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol. Cyfeiriodd at y data yn yr adroddiad - roedd yn galonogol o ran y bobl ifanc y mae'r Awdurdod wedi'u cyflogi a'r ffordd y mae'r Cyngor hefyd wedi gallu cynnal ystod eang o grwpiau oedran ymysg staff y Cyngor.

Rhoddodd y Rheolwr Polisi a Strategaeth drosolwg o'r adroddiad a’r dull y mae'r Awdurdod yn cyflawni cyfrifoldebau Cydraddoldeb a dyletswyddau cydraddoldeb penodol. Dywedodd fod yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb yn ddogfen statudol i fodloni dyletswydd gyffredinol y Ddeddf Cydraddoldebau. Mae'r adroddiad yn rhoi sylw i’r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth, 2020 lle mae'n cyfeirio at ddata cyflogaeth. Mae gweddill yr adroddiad yn rhoi amlinelliad o'r datblygiadau hyd at fis Rhagfyr 2020 er mwyn rhoi ffocws mwy diweddar yn ogystal ag ategu Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor.

Er ei bod wedi bod yn flwyddyn heriol i'r Awdurdod wrth ddelio â'r pandemig, dywedodd y Rheolwr Polisi a Strategaeth fod enghreifftiau calonogol a bod y Cyngor a'i bartneriaid wedi cynnal nifer o weithgareddau i hyrwyddo cydraddoldeb a diogelu'r cymunedau mwyaf agored i niwed fel y gwelir ar dudalen 16 yr adroddiad. Mae'r Awdurdod hefyd wedi addasu i heriau'r pandemig gyda staff yn gweithio

gartref a chyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithwir. Mae angen i staff addasu i heriau addysgu eu plant gartref a chyfrifoldebau gofal plant

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaed y prif bwyntiau canlynol:-

- Codwyd cwestiynau ynghylch i ba raddau y cyflawnodd y Cyngor yr amcanion cydraddoldeb yn llwyddiannus. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Polisi a Strategaeth yr ystyrir bod amcanion y Cynllun Cydraddoldebau wedi cael sylw gan y Cyngor;
- Cyfeiriwyd at flaenoriaeth 8.2 yn yr Adroddiad Blynyddol – Mae proses gorfforaethol effeithiol wedi'i sefydlu i sicrhau bod effaith yn cael ei hasesu'n barhaus ar draws gwasanaethau. Codwyd cwestiynau ynghylch pwy sy'n asesu'r broses gorfforaethol. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Polisi a Strategaeth fod asesu ar gyfer effaith ar gydraddoldeb yn broses barhaus y dylid ei hymgorffori wrth ddatblygu cynigion.
- Cyfeiriwyd at y bylchau addysgol rhwng merched a bechgyn a phlant sy'n derbyn prydau ysgol, yn enwedig yn ystod y pandemig. Codwyd cwestiynau ynghylch beth yw blaenoriaethau'r Awdurdod i fynd i'r afael â'r bwlch hwn yn y dyfodol. Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd y Cyngor y bydd yn her nodi a dangos tystiolaeth o'r bwlch yn enwedig tra bod plant wedi gorfod derbyn eu haddysg gartref ac i fesur yr effaith y mae wedi'i chael ar ddisgyblion. Pan fydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgolion, dywedodd y bydd angen eu hasesu i fesur potensial a chyflawniad disgyblion ac i gydbwyso eu lles;
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod 8 blaenoriaeth wedi'u nodi yn yr adroddiad ac mai pwrpas y Ddeddf Cydraddoldebau yw canolbwyntio ar gydraddoldeb a thegwch. Codwyd cwestiynau ynghylch pam mai dim ond 8 blaenoriaeth sydd wedi'u nodi pan fydd yn amlwg bod llawer o flaenoriaethau eraill y mae angen mynd i'r afael â hwy ac y gallai pobl gale eu trin yn annheg. Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd y Cyngor y bu trafodaethau ynglŷn â'r blaenoriaethau hyn pan gyflwynwyd y Cynllun Strategol Cydraddoldeb i'r Pwyllgor hwn. Trafodwyd y ddogfen hefyd yn y Cyngor llawn wedi hynny pan esboniwyd gallu gwasanaethau'r Awdurdod i gyflawni blaenoriaethau a nodwyd. At hynny dywedodd, os yw'r Pwyllgor o'r farn bod angen blaenoriaethu maes penodol yn y Cynllun, yna gellir mynd i'r afael â'r mater.

**PENDERFYNWYD derbyn Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2019/20.**

**GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.**

## 6 NEWID HINSAWDD

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd Deilydd Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd fod yr argyfwng hinsawdd yn berthnasol yn gorfforaethol o fewn pob gwasanaeth ac mai'r targed i'r Cyngor oedd bod yn garbon niwtral erbyn 2030. Bydd disgwyliadau gan drigolion, cymunedau a busnesau i'r Cyngor gymryd camau penodol i ymateb yn brydlon ac yn effeithiol yn cynyddu. Er mwyn ymateb yn effeithiol i'r argyfwng hinsawdd, dywedodd y bydd angen arweinyddiaeth, polisïau a newid arferion ynghyd ag

atebion ariannol a thechnegol a bydd angen dechrau addasu i ddulliau gwaith yr Awdurdod.

Adroddodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod y Cyngor Sir wedi datgan argyfwng hinsawdd yn y Cyngor llawn a gynhaliwyd ar 8 Medi 2020 a’i fod wedi ymrwymo y byddai’r Awdurdod yn garbon niwtral erbyn 2030. Mae nifer o Strategaethau Cenedlaethol a Rhanbarthol sydd wedi'u drafftio ers hynny i ymateb i'r heriau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Er bod yr awdurdod wedi ymrwymo'n llwyr i barhau i ymgysylltu a chydweithio â'i holl bartneriaid, ar bob lefel, mae cydnabyddiaeth hefyd bod yr holl ddarpariaeth yn lleol. Mae'r awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu arweinyddiaeth leol ar yr Ynys, ac i weithredu'n gorfforaethol i sicrhau newidiadau pendant er mwyn gallu newid yn effeithiol i fod yn sefydliad carbon niwtral. Er bod rhai penderfyniadau a chamau gweithredu o fewn rheolaeth yr awdurdod, bydd angen cymorth ac adnoddau ychwanegol ar eraill gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gydgysylltu, datblygu a chyflawni. Ynghyd â Deddf Newid yn yr Hinsawdd y DU (2008), mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Amgylcheddol (Cymru) 2016 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gweithredu ar newid hinsawdd a rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy, gyda phob un yn seiliedig ar strategaethau a fframweithiau. Cydnabyddir bod Llywodraeth Leol yn hanfodol i sicrhau datgarboneiddio, yn enwedig o ran darparu arweinyddiaeth leol a hyrwyddo atebion cynaliadwy uchelgeisiol a newid ymddygiad.

At hynny, dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod Panel Strategaeth Datgarboneiddio Llywodraeth Leol wedi'i sefydlu i helpu i arwain, cefnogi, annog a rhoi trosolwg strategol. Cytunodd Cyngor Partneriaeth Cymru ar sefydlu'r Panel ym mis Mehefin 2020, gyda chynrychiolaeth gan Brif Weithredwyr awdurdodau lleol, CLlLC, sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, Llywodraeth Cymru a chynghorwyr perthnasol. Mae'n adrodd i'r Cyngor Partneriaeth sy'n rhoi cyfeiriad ac arweiniad gwleidyddol i'r gwaith. Cynrychiolir awdurdodau lleol Gogledd Cymru gan Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i :-

- Ddeall eu hôl troed carbon, yn unol â chanllawiau ar gyfer adrodd am allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y sector cyhoeddus;
- Cytuno i osod ymrwymiadau/addewidion sero net ar gyfer COP26 (a gynhelir yn Glasgow ym mis Tachwedd 2021);
- Monitro ac adrodd yn ofalus ar eu hallyriadau carbon ar hyn o bryd ac yn y dyfodol;
- Sicrhau bod cynllun gweithredu sero net cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ei le, fel dogfen fyw erbyn mis Mawrth 2021;
- Gweithio gyda'r Panel Strategaeth Datgarboneiddio newydd

At hynny, dywedwyd nad oes gan yr awdurdod arweinydd corfforaethol (neu wleidyddol) penodol ar hyn o bryd ar gyfer newid hinsawdd. Er bod rhywfaint o arbenigedd yn bodoli o ran datgarboneiddio o fewn gwasanaethau penodol, mae hyn yn cyd-fynd ag adeiladu a gwelliannau i adeiladau. Mae awdurdodau eraill wedi dangos eu hymrwymiad i'r maes thematig allweddol hwn drwy neilltuo adnoddau penodol. Y gobaith yw y bydd Llywodraeth Cymru dros amser yn cydnabod bod yn rhaid i weithgarwch i fynd i'r afael â newid hinsawdd a

datgarboneiddio gael ei adlewyrchu a'i gynnwys yn rhan o setliadau blynyddol awdurdodau lleol.  Nid oes dewis arall ond dyrannu cyllid craidd i greu capasiti/arbenigedd penodol i arwain ar ddatblygu a chydlynu camau cychwynnol datblygu a darparu.  Byddai hyn yn cael ei ddefnyddio i dalu costau cyflogi Uwch Reolwr Rhaglen Gorfforaethol ar Newid Hinsawdd am gyfnod o ddwy flynedd, gyda chyllideb weithredol wedi'i chostio a fyddai'n cael ei defnyddio i baratoi llinell sylfaen garbon, fframwaith monitro, dangosfwrdd, llunio cynllun gweithredu, a chaffael hyfforddiant.  Byddai'r swyddog penodedig hefyd yn cydlynu gweithgareddau ar draws gwasanaethau, yn cynrychioli'r awdurdod mewn grwpiau a digwyddiadau rhanbarthol a cenedlaethol perthnasol, yn adrodd ar gynnydd, yn dylanwadu ar weithgareddau gwasanaeth, yn nodi arfer da, ac yn sicrhau bod ymdeimlad o bwrpas, arweinyddiaeth a momentwm.

Croesawodd y Pwyllgor y bwriad i benodi Uwch Reolwr Rhaglen Gorfforaethol ar Newid Hinsawdd gan y bydd yn galluogi'r Awdurdod i symud y rhaglen newid hinsawdd yn ei blaen o fewn y Cyngor.  Cyfeiriwyd at y ffaith y dylai'r Awdurdod fod yn hyrwyddo'r gwaith sydd wedi'i wneud ar hyn o bryd i fynd i'r afael â newid hinsawdd ac ôl troed carbon fel rhan o gontractau ar gyfer adeiladu tai cymdeithasol, gyda goleuadau stryd wedi newid i gyfleusterau solar a charbon isel.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaed y prif bwyntiau canlynol:-

- Cyfeiriwyd at y contract prydau ysgol a'r angen i'r contractwyr gael gafael ar gynnyrch lleol fel rhan o gontract prydau ysgol.  Mewn ymateb, dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod y contract prydau ysgol yn dod i ben a bod y broses gaffael wrthi'n cael ei chynnal mewn perthynas â'r contract prydau ysgol;
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod gwresogi cartref yn defnyddio llawer o ynni. Codwyd cwestiynau ynghylch sut y bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â gofynion lleihau costau gwresogi cartrefi yn y dyfodol. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Tai fod 4 annedd wedi'u hadeiladu yng Nghaergybi sy'n cael eu hystyried yn dai ynni goddefol sy'n strwythurau wedi'u hinswleiddio.  Dywedodd hefyd fod 6 annedd arall wedi'u hadeiladu yng Nghaergeiliog sy'n ffynonellau adeiladu modern a bod gwella capasiti gwresogi anheddau o'r fath yn bwysig i breswylwyr oherwydd costau ynni.  Bydd her i wella'r stoc dai bresennol er mwyn cydymffurfio â'r gofynion ond cafodd grant o £500k ei roi gan Lywodraeth Cymru i wresogi cartrefi â phaneli solar a chyfleusterau ffynhonnell aer.

**PENDERFYNWYD cefnogi a chymeradwyo:-**

- **datblygu a gweithredu Rhaglen Newid Hinsawdd gorfforaethol newydd i alluogi'r awdurdod i newid i fod yn sefydliad carbon niwtral gan 2030;**
- **recriwtio Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd Gorfforaethol i arwain y gwaith o ddatblygu a darparu;**
- **sefydlu Gweithgor Newid Hinsawdd (gyda chynrychiolaeth wleidyddol) grŵp cynghori, nad yw'n gwneud penderfyniadau i wneud argymhellion a cheisiadau.**

**GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.**

## 7 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD DIOGELU GOGLEDD CYMRU 2019/20

Cyflwynwyd – adroddiad gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor a Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr adroddiad yn bodloni'r gofynion statudol, sef bod Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol. Mae'r adroddiadau'n rhoi trosolwg o waith Byrddau Diogelu Plant Gogledd Cymru ac Oedolion Gogledd Cymru rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020 a'r cynnydd a wnaed i gyflawni amcanion allweddol ar draws y rhanbarth i ddiogelu pobl. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r camau nesaf a'r cynlluniau tymor hir ar gyfer y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Dywedodd fod enghreifftiau o arfer da yn cael sylw yn yr adroddiad.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod diogelu yn gofyn am waith partneriaeth effeithiol ac mae Adroddiad Blynyddol 2019/20 yn cydnabod arfer da ar draws y rhanbarth, yn ogystal â meysydd datblygu. Adlewyrchir y meysydd datblygu hyn yng nghynllun busnes Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar gyfer 2020/21. Mae'r Byrddau wedi parhau i aeddfedu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a bellach maent yn dangos bod cydweithredu a herio effeithiol yn rhan o fusnes bob dydd. Gall y Byrddau ddangos sut y maent wedi dylanwadu ar yr agenda cenedlaethol ar y Gweithdrefnau Cenedlaethol a Chanllawiau Ymarfer Cymru Gyfan. Dywedodd fod Gweithdrefnau Diogelu Cymru wedi'u rhoi ar waith a bod nifer o sesiynau hyfforddi wedi'u cynnal yn rhithwir ar gyfer staff yn y gwasanaethau i blant ac oedolion.

Dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod pryderon yn ystod misoedd cyntaf y pandemig bod atgyfeiriadau o fewn y gwasanaethau i blant wedi gostwng. Roedd y Bwrdd Diogelu yn gallu codi ymwybyddiaeth i Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r diffyg o fewn y system.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaed y pwyntiau canlynol:-

- Mynegodd y Cynghorydd R Ll Jones fel Hyrwyddwr Pobl Hŷn fod pryderon ynglŷn â cham-drin pobl oedrannus a holodd sut yr oedd y Bwrdd Diogelu yn diogelu'r henoed. Mewn ymateb, dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod ymdrechion yn cael eu gwneud yn lleol i godi ymwybyddiaeth o bob grŵp oedran ac roedd pobl yn cael eu hannog i roi gwybod am bryderon ynghylch unrhyw bobl yr oedd ganddynt bryderon yn eu cylch yn eu cymunedau. Dywedodd fod hyfforddiant yn cael ei roi i'r holl staff sy'n ymwneud â gofal yr henoed;
- Cyfeiriwyd at blant sy'n cael eu haddysgu gartref a'r diffyg arolygiad addysgol gan gyrff addysgol. Codwyd cwestiynau ynghylch sut y mae'r Bwrdd Diogelu yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â phlant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref/addysg gartref. Dywedodd y Cadeirydd fod y Comisiynydd Plant wedi codi'r mater yn ddiweddar. Mewn ymateb, dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd ynglŷn â chanllawiau newydd ar gyfer addysgu plant gartref. Dywedodd fod yr Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg yn gweithio'n agos i rannu unrhyw bryderon ynglŷn â'r plant hyn sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref. Fodd bynnag, dywedodd fod hwn yn fater cymhleth a bod rhai plant sy’n cael

eu haddysgu gartref yn ffynnu. Er hynny, mae'n bwysig nodi bod diogelu plant hefyd yn fater y mae angen ei fonitro;

- Codwyd cwestiynau ynglŷn â'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd mewn perthynas â datblygu a chefnogi cydymffurfiaeth â Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019. Mewn ymateb, dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod cyrsiau wedi'u cynnal ar-lein ac yn rhithwir. Dywedodd fod y canllawiau o ran y Gweithdrefnau Diogelu ar gael drwy Ap symudol sy'n hawdd ei ddarllen ac sydd ar gael i'r cyhoedd.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth yn Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru 2019/20.**

**CAM GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.**

## 8 CRAFFU AR BARTNERIAETHAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Swyddog Craffu fod yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Sgriwtini rhwng mis Mehefin 2019 a mis Tachwedd 2020. Dywedodd fod angen parhau i wneud y dasg o graffu ar bartneriaethau mewn ffordd reoledig, gan ganolbwyntio ar y partneriaethau strategol allweddol sy'n galluogi'r Cyngor i gyflawni ei amcanion a'i flaenoriaethau. Er mwyn ychwanegu gwerth, mae angen i drefniadau ar gyfer craffu ar bartneriaethau barhau i fod yn amserol ac yn gymesur. Mae gan y Cyngor Sir brofiad helaeth o weithio mewn partneriaeth, yn lleol, yn rhanbarthol ac ar lefel genedlaethol. Hefyd, dywedodd y Swyddog Sgriwtini fod yn rhaid i'r Cyngor, o ganlyniad i'r pandemig presennol, flaenoriaethu ei adnoddau ac nad yw ymdrechion ei weithlu i gynnal busnes fel arfer yn bosibl. Mae Deddf Coronafeirws 2020 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 dilynol yn lleihau'r rhwymedigaethau cyfreithiol ar awdurdodau lleol mewn perthynas â chyfarfodydd, tra eu bod yn caniatáu i aelodau fynychu unrhyw gyfarfodydd gofynnol o bell. Yn ogystal â hyn, o ganlyniad i'r pandemig, cafodd yr angen i graffu ar rai adroddiadau blynyddol ei ohirio, neu cafodd yr amserlen i wneud y gwaith ei hymestyn.

Cyfarfu'r ddau Bwyllgor Sgriwtini am y tro cyntaf ers dechrau'r pandemig yn ystod mis Medi 2020, ac ers hynny, mae'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio wedi cyfarfod yn rheolaidd ac wedi ailddechrau'r gwaith craffu ar bartneriaethau ac wedi cydymffurfio'n llawn â'r holl ofynion statudol. Fodd bynnag, mae trefniadau ar gyfer rhai partneriaid wedi'u gohirio o ganlyniad i'r pandemig, a bu'n rhaid blaenoriaethu rhaglen waith y Pwyllgor i ategu gofynion lleol ac ystyried y pwysau yr oedd y partneriaid hyn yn ei wynebu hefyd; mae'rpartneriaid hyn wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad. Cyfeiriwyd hefyd at Atodiad 2 sydd ynghlwm wrth yr adroddiad a oedd yn amlinellu'r partneriaethau y mae angen eu blaenoriaethu a'u gwahodd i fynychu'r Pwyllgor Sgriwtini hwn maes o law. At hynny, dywedodd y Swyddog Sgriwtini ei bod yn fwriad gwahodd y partneriaethau hynny nad ydynt wedi gallu mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu oherwydd y pandemig i drafod y gwaith partneriaeth gyda'r Awdurdod ar yr Ynys i gyd-fynd â'r cyfnod adfer.

Roedd y Pwyllgor o'r farn bod angen rhoi gwahoddiad i’r sefydliadau canlynol i fynychu'r Pwyllgor Craffu maes o law:-

Cyfoeth Naturiol Cymru
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Gwasanaethau Ambiwlans

**PENDERFYNWYD nodi a chefnogi:-**

- **Craffu ar bartneriaethau allweddol a gynhaliwyd yn ystod 2019/20;**
- **Y partneriaethau y bwriedir eu blaenoriaethu yn rhaglen waith y Pwyllgor dros y flwyddyn nesaf;**
- **Y camau nesaf y bwriedir eu cymryd fel y nodir ym mharagraff 5.11 o'r adroddiad;**
- **Gwahodd y partneriaethau lle bu llithriant yn y rhaglen waith o ganlyniad i bandemig Covid-19 i drafod eu gwaith partneriaeth i gyd-fynd â'r cyfnod adfer.**

**GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.**

## 9 RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cytuno ar y fersiwn gyfredol o'r Flaenraglen Waith ar gyfer 2020/21;**
- **Nodi'r cynnydd hyd yma o ran gweithredu'r Flaenraglen Waith.**

**GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.**

Daeth y cyfarfod i ben yn 12.10 pm

**CYNGHORYDD GWILYM O JONES**
**CADEIRYDD**

## PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

### Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd 14 Ebrill 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, R Ll Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Margaret M Roberts a Nicola Roberts.<br><br>Deilydd Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth y Gwasanaeth Democrataidd<br>Uwch-reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant (Gwynedd a Môn) (FEE),<br>Swyddog Sgriwtini (SR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

Yn sgil marwolaeth Ei Uchelder Brenhinol, Dug Caeredin, safodd y Pwyllgor am funud o dawelwch, ran parch ac mewn cydymdeimlad.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Ni ddaeth yr un i law.

**2 DATGANIAD DIDDORDEB**

Ni ddaeth yr un datganiad o ddiddordeb i law.

**PARTNERIAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIANT**

Cyflwynwyd - adroddiad diweddaru gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ar gynnydd y Bartneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant (ADY ac Ch).

Adroddodd yr Uwch-reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant (Gwynedd a Môn) fod y Gwasanaeth ADY ac Ch integredig wedi bod ar waith er mis Medi 2017. O ran cyd-destun Deddfwriaethol, bydd y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd a Deddfwriaeth Tribiwnlys Cymru (2018) yn dod i rym yn

raddol o fis Medi 2021. Cadarnhawyd y Cod terfynol yn y Senedd y 23ain o Fawrth, 2021.

Mae tair rhan i’r adroddiad:-

**Rhan 1 – Arfarniad Allanol y Gwasanaeth**

Yn ystod mis Ionawr / Chwefror 2021, comisiynwyd Mrs Caroline Rees, Arolygydd Allanol Estyn, i gynnal adolygiad o Strategaeth ADY ac Ch Môn a Gwynedd. Cynhaliwyd yr adolygiad dros gyfnod o bedair wythnos. Fel rhan o'r adolygiad, cyfarfu Mrs Rees â nifer o aelodau o dîm a rhanddeiliaid ysgolion a'r awdurdod lleol. Cyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr yn amlinellu camau gweithredu. Cafodd crynodeb o'r adroddiad ei gynnwys yn yr adroddiad i'r Pwyllgor ynghyd â meysydd pwysig ar gyfer datblygu rhagor ar y Gwasanaeth.

**Rhan 2 – Cymorth yn ystod cyfnod COVID (Mawrth 2020)**

Mae'r cyfnodau clo er mis Mawrth 2020 wedi creu heriau sylweddol i blant a phobl ifanc, ac i'r holl weithlu addysg. Mae'r Gwasanaeth ADY ac Ch wedi adolygu'r model cyflenwi mewn cyfnod byr iawn i ymateb i hyn dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r ddyletswydd statudol i roi gwasanaeth yn unol â’r Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig (2002) wedi parhau, ac mae'r gwaith trosglwyddo ar gyfer y Ddeddfwriaeth newydd hefyd wedi parhau. Bu cydweithredu cyson, hefyd, rhwng y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, Gwasanaethau Plant ac Asiantaethau Iechyd i sicrhau y cydlynir â'r gwaith hwn.

Yn ystod tymor yr hydref, cynhaliodd Estyn Arolygiad Thematig o ymateb Awdurdodau Cymru i’r pandemig yng nghyd-destun Dysgwyr Bregus. Canmolwyd y Gwasanaeth ADY ac Ch am y meysydd cyflenwi a chyflwynwyd yr adroddiad i'r awdurdod lleol.

**Rhan 3 – Crynhoi**

Yng nghyd-destun Cynlluniau Gwella Tîm unigol dros y flwyddyn ddiwethaf, yr Adroddiad Gwerthuso Allanol ac Arolygiad Thematig Estyn, daeth i’r amlwg fod cynnydd y Gwasanaeth, gyda’r isod, yn gryfderau ac yn flaenoriaethau / meysydd datblygu allweddol:-

**Cryfderau –**

- Mae system Offer Datblygu Unigol electronig wedi'i datblygu, a chaiff bellach ei defnyddio gan bob ysgol, yn dilyn cyfnod peilot llwyddiannus. Mae'r system yn hwyluso gwaith ysgolion a'r gwasanaeth yn sylweddol;
- Mae'r Prosiect Meithrin Ysgolion yn parhau i gael ei weithredu ac mae canlyniadau cadarnhaol i’w gweld mewn addysg gynradd ac uwchradd;
- Mae View 2 yr Adolygiad Strategol, sy'n ymwneud â Thrawsnewid Deddfwriaethol, yn gwneud cynnydd da ac mae’n parhau i sicrhau bod Ynys Môn yn barod ar gyfer y ddeddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd ym mis Medi 2020;

- Mae Strategaeth Hyfforddi'r Gwasanaeth wedi'i gosod a hyfforddiant wedi'i gyflwyno. Mae hyn bellach yn rhan annatod o rôl pob tîm;
- Mae defnyddio TOM (Mesurau Canlyniadau Therapi) yn cael ei ymestyn ymhellach fel bod modd adrodd yn ehangach ar gynnydd plant, gan fod gofyn defnyddio dulliau cyfannol er mwyn dangos cynnydd plant a phobl ifanc sydd ag ADY;
- Mae trefniadau ar waith i fonitro gwaith darparu ADY a defnyddio adnoddau fel rhan o waith rhesymoli'r defnydd a wneir o Gyllid ADY. Mae hyn hefyd yn rhan o waith parhaus View 2;
- Mae nifer y tribiwnlysoedd yn parhau i fod yn isel iawn, gyda thribiwnlysoedd sy'n ymwneud â darpariaeth yn ysgolion Ynys Môn yn isel iawn o gymharu â'r raddfa genedlaethol o ran yr Awdurdod (h.y. mae'n cadarnhau y caiff darpariaeth addas ei chyflwyno);
- Mae dangosyddion capasiti ysgolion yn parhau i bwysleisio bod ysgolion Ynys Môn yn hynod gynhwysol - dengys lefel y gwaharddiadau, nifer y disgyblion mewn darpariaeth amgen, nifer yr addysg ddewisol yn y cartref a phresenoldeb ddarlun cynhwysol iawn o gymharu â graddfeydd cenedlaethol.

Amlygodd yr Uwch-reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant (Gwynedd a Môn) flaenoriaethau'r cyfnod nesaf fel a ganlyn:-

- Parhau i gyfrannu at gynllun adfer Covid;
- Gweithredu'r Ddeddfwriaeth ADY o fis Medi 2021 ymlaen, fydd yn canolbwyntio ar: -

  - Ansawdd Cynlluniau Datblygu Unigol, a sicrhau bod y plentyn yn ganolog i'r broses;
  - Cysondeb yn y ddarpariaeth ysgol, a rôl y Cydlynydd ADY;
  - Cryfhau a symleiddio llwybrau darpariaeth 0-3 a 16-25;
  - Cynlluniau cyflenwi ar gyfer y grwpiau eraill sy'n newid o ran cyfrifoldeb yr Awdurdod (e.e. dysgwyr sy'n cael eu haddysgu gartref, dysgwyr mewn sefydliadau annibynnol);

- Parhau i addasu a datblygu Darpariaeth Cynhwysiant Eilaidd ar gyfer Medi 2021;

- Bydd y Gwasanaethau hefyd yn parhau i flaenoriaethu'r Strategaeth Hyfforddi Ysgolion a Staff a dulliau o olrhain cynnydd ac effeithiolrwydd ymyriadau yn y Cynlluniau Datblygu ar-lein.

Adroddodd y Deiliad Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid fod y gwasanaeth ADY ac Ch wedi cael ei herio a'i adolygu a bod y ddarpariaeth ADY ac Ch, ar y cyfan, yn gadarn.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwneud y prif bwyntiau a ganlyn:

- Er bod yr adroddiad yn tynnu sylw at gryfderau yn y gwasanaeth ADY, roedd angen gwaith ym mhersbectif Cynhwysiant y gwasanaeth. Cytunodd yr Uwch-reolwr ADY ac Ch bod angen gwaith pellach ym mhersbectif Cynhwysiant y gwasanaeth ac angen datblygu darpariaeth ar gyfer ymddygiad ym mlwyddyn 9 a cham allweddol 4, gan gynnwys model gwell ar gyfer Pecyn 25;
- Nodwyd yn yr adroddiad bod angen datblygu mwy ar gyfathrebu ag ysgolion, er bod modd gweld bod yno gyswllt ag ysgolion / teuluoedd plant sydd â Chynlluniau Datblygu Unigol / Datganiad. Ymatebodd yr Uwch-reolwr ADY ac Ch trwy ddweud y câi cyswllt wythnosol ei gynnal trwy gydol y pandemig, gydag aelod o staff o'r gwasanaeth yn cysylltu â'r ysgolion i adolygu'r ddarpariaeth i blant, yn enwedig y rhai sydd â Chynlluniau Datblygu Unigol / Datganiad. Roedd Paneli Cymedroli wedi parhau ac roedd gwybodaeth am y plentyn / bobl ifanc a'u gofynion yn cael eu bwydo trwy'r system Datblygu Unigol electronig sydd bellach yn cael ei defnyddio gan bob ysgol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod yr Uwch-reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant bellach yn rhan o Uwch-dîm Arweinyddiaeth yr Adran Addysg, ynghyd â chynrychiolwyr ar y fforymau cynradd a strategol. Roedd cynrychiolwyr o'r gwasanaeth ADY ac Ch hefyd yn rhan o gyfarfodydd y Dalgylch gydag ysgolion;
- Codwyd cwestiynau ynghylch effaith y pandemig ar y gwasanaeth gan y nodwyd yn yr adroddiad bod yr adolygiad o'r gwasanaeth ADY ac Ch wedi'i gynnal ar ddechrau'r pandemig. Ymatebodd yr Uwch-reolwr bod y gwasanaeth ADY ac Ch yn blaenoriaethu cefnogi'r plant / pobl ifanc gyda'u lles a'u llesiant a rhoi cefnogaeth i deuluoedd os oedd ei angen, gan fod addysg yn cael ei rhoi mewn gwahanol ffyrdd. Nododd fod y gwasanaeth a roddir i'r plant / pobl ifanc bellach yn gwbl weithredol ers tymor yr hydref. Cyflawnir swyddogaethau gweithredol y gwasanaeth yn rhithwir er mwyn cynnal Paneli Cymedroli a chyfarfodydd ag ysgolion. Roedd y staff ADY ac Ch bellach yn gweithio yn yr ysgolion yn hytrach na gweithio'n rhithwir ond bod gwahanol heriau i'r plant / pobl ifanc oherwydd effaith y pandemig ar addysg. O'r herwydd, roedd yn bwysig rhoi cefnogaeth i ddisgyblion a sicrhau eu bod yn cael yn ôl i'r drefn arferol o fynd i'r ysgol;
- Codwyd cwestiynau pellach ynghylch a fyddai'r newidiadau a orfodwyd ar y gwasanaeth ADY ac Ch oherwydd y pandemig yn parhau. Ymatebodd yr Uwch-reolwr mai'r arfer gorau a sefydlwyd oedd bod cydlynydd un cyswllt o'r gwasanaeth ADY ac Ch yn delio ag unrhyw ymholiadau gan ysgolion ac y cynhelir trafodaethau yn wythnosol mewn perthynas ag unrhyw bryderon. Wedi hynny, gallai'r Cydlynydd drosglwyddo unrhyw broblemau ac unrhyw gymorth ychwanegol i'r gwasanaeth ADY ac Ch.
- Codwyd cwestiynau ynghylch sut y gellid cryfhau gwaith y Gwasanaeth ADY ac Ch ymhellach. Ymatebodd yr Uwch-reolwr bod y bartneriaeth rhwng Gwynedd a Môn wedi blaenoriaethu agwedd y gwasanaeth oedd yn darparu cynhwysiant ac y byddai'r gwaith yn cael ei wneud gyda'r Gwasanaeth Plant. Rhagwelid y byddai'n cryfhau'r gwasanaeth i blant a phobl ifanc. Yn unol â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd, câi'r gwasanaeth arbenigol ei gryfhau gyda chyfleoedd i bobl hyfforddi fel Seicolegydd Addysg ar gyfer athrawon â nam ar eu clyw a'u golwg; byddai'n fodd i recriwtio staff lleol a

dwyieithog yn yr ardaloedd hyn, ynghyd ag arbenigwr iaith arwyddo a lleferydd;

- Codwyd cwestiynau gan fod y Gwasanaeth ADY ac Ch yn gallu monitro plant sy'n dysgu gartref. Ymatebodd yr Uwch-reolwr gan ddweud y gwelwyd cynnydd ym mis Medi 2020 pan ddatgofrestrodd rhieni eu plant o wasanaeth addysg yr awdurdod lleol oherwydd y pandemig. Byddai'n rhaid i rieni oedd yn dadgofrestru eu plant gymryd cyfrifoldeb am addysg eu plant. Nododd y byddai canllawiau statudol yn dod i rym ym mis Medi 2022 i fonitro addysg disgyblion a addysgwyd gartref. Cynhaliwyd cynhadledd rithwir i rieni disgyblion a addysgir gartref. Roedd nifer fawr yn y gynhadledd a châi cynhadledd rithwir arall ei chynnal cyn diwedd y tymor ysgol hwn;
- Cyfeiriwyd at y ffaith ei bod yn dal i gymryd amser maith i nodi anghenion ychwanegol ac anghenion niwroddatblygiadol plentyn. Codwyd cwestiynau ynghylch y cyfnod aros cyfredol i blentyn gael diagnosis o anghenion dysgu ac anghenion niwroddatblygiadol a chael gweld seicolegydd addysg. Ymatebodd yr Uwch-reolwr bod Tîm y Seicolegydd yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion ac nad oedd ganddynt restr aros i weld plant. Y bwrdd iechyd lleol oedd yn delio â'r anghenion niwroddatblygiadol ac roedd trafodaeth wedi bod ar i blant gael eu gweld yn gynharach. Nododd fod gwell cyfathrebu rhwng y tîm ADY ac Ch a'r adran niwroddatblygiadol o ran canfod a nodi anghenion y plentyn. Gofynnodd yr aelodau am i enghreifftiau o astudiaethau achos gael eu rhoi i'r Pwyllgor hwn pan gyflwynid adroddiad diweddaru ar y gwasanaeth ADY ac Ch.
- Dywedwyd nad oedd y gwasanaeth hwn wedi gweld achosion o her gyfreithiol ar Ynys Môn yn ystod y pandemig. Mynegodd yr aelodau nad oedd gan fwyafrif y rhieni'r profiad o herio gwasanaeth o'r fath. Ymatebodd yr Uwch-reolwr bod modd rhoi cefnogaeth trwy SNAP Cymru i asesu plant yn statudol.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r cynnydd hyd yma gyda gwaith y Bartneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant;**
- **Nodi ymateb y Bartneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant i'r argymhellion a nodwyd gan yr Ymgynghorydd Allanol fel rhan o'r arfarniad diweddar.**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

## 4 PANEL ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION – ADRODDIAD CYNNYDD

Cyflwynwyd - adroddiad cynnydd y Swyddog Craffu ar y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion.

Dywedodd y Cadeirydd fod yr adroddiad yn cyfeirio at bedwar cyfarfod olaf y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion ac yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Tachwedd 2020 a Mawrth 2021. Nododd fod Gwaith monitro safonau ysgolion unigol wedi hen ennill ei blwyf a'i fod yn parhau i ddatblygu. Yn dilyn trafodaeth ym mis Hydref 2019 ar y rhaglen i fonitro safonau mewn ysgolion unigol, roedd tystiolaeth gref o weithredu ar y penderfyniad i ddatblygu craffu ymhellach. Fodd bynnag, roedd canlyniad y pandemig wedi cael effaith ar y gwaith ar hyn o bryd a bwriad y Panel oedd ailedrych ar yr ymweliadau hyn pan fyddai amodau'n caniatáu. O'r herwydd, byddai angen i'r Panel addasu'r ffordd yr oedd yn gweithio a chraffu ar berfformiad ysgolion unigol. Roedd lle i'r Panel gyflawni'r gwaith hwn yn rhithwir yn y dyfodol.

Crybwyllodd y Cadeirydd fod y Panel wedi ystyried y materion a ganlyn: -

- Ymateb y Cyngor i Covid-19 (Rhan 3): Cymorth i Blant sy'n Fregus a Phrosiect Caergybi;
- Darpariaeth Lles;
- Adroddiad Cynnydd GwE 2020/21: Cefnogi Ysgolion yn ystod pandemig Covid-19;
- Y Gymraeg;
- Ysgolion Arbennig;
- Camau nesaf;
- Estyn: cefnogaeth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion ymateb i Covid-19;
- Teithiau dwy Ysgol Uwchradd ar yr Ynys;
- Diweddariad ar ddatblygiadau Partneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant Gwynedd a Môn;
- Cefnogaeth ddigidol i ysgolion a datblygiadau cyffredinol ynghylch y Gymraeg.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a gwneud y prif bwyntiau a ganlyn:-

- Sut y gallai'r Panel ddatblygu fel y gellid clywed llais y plentyn / disgyblion. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod y Gwasanaeth Addysg yn annog disgyblion i fynegi eu barn fel rhan o weithgareddau ac addysg yr ysgol. Nododd fod y Cyngor Ysgol yn rhoi cyfle i ddisgyblion godi materion o bryder ac yn sicrhau bod syniadau / gweledigaeth bosibl y plant yn gwella'r gwaith yr oedd yr ysgolion yn canolbwyntio arno;
- Gofynnwyd a oedd camau a gymerwyd gan y Panel yn ddigon cadarn ac a oedd faint o waith a wnaed yn briodol ac a oedd angen trosglwyddo materion i'r Pwyllgor Craffu. Ymatebodd y Cadeirydd gan ddweud fod y Swyddogion Addysg yn mynd i' Panel ynghyd â chynrychiolwyr o GwE. Mynegodd ymhellach fod y cysylltiad â GwE yn fanteisiol i'r Panel er mwyn rhoi sylw i faterion a rhannu gwybodaeth. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod trafodaethau yn y Panel yn gallu ymwneud â materion a allai fod yn broblem yn y dyfodol gyda sbectrwm addysgol; gallai cynrychiolwyr y Panel herio Swyddogion o'r Gwasanaeth Addysg a GwE. Nododd fod gwahoddiad hefyd wedi'i roi i Estyn i ddod i unrhyw gyfarfod o'r Panel.
- Gofynnwyd a oedd gan y Panel dystiolaeth ei fod yn ychwanegu gwerth at y gwasanaeth Addysg. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl

Ifanc trwy ddweud y câi gwaith paratoi sylweddol ei wneud ar gyfer y Panel a bod cofnodion ac adroddiadau ar gael. Nododd fod y Gwasanaeth Addysg wedi elwa o waith y Panel gyda Phenaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd yn cael eu gwahodd gerbron y Panel a bod aelodau'r Panel yn ymweld â'r ysgol. Roedd cefnogaeth GwE ac Estyn hefyd wedi bod yn effeithiol i waith y Panel. Dywedodd y Prif Weithredwr mai cryfderau'r Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion oedd ei fod wedi gallu esblygu o amgylch yr heriau yn y gwasanaeth addysg. Nododd y câi'r Panel ei gydnabod yn arfer da gan Estyn a GwE ac yn genedlaethol. Dywedodd y Prif Weithredwr bod angen i'r Panel ystyried y genhedlaeth o ddisgyblion oedd mewn ysgolion ar hyn o bryd os byddir yn cyhoeddi na fydd unrhyw arholiadau allanol yn cael eu cynnal yn y pum mlynedd nesaf. Byddai angen i'r Panel drafod sut y byddai'n herio'r ysgolion yn eu perfformiad yn hyn o beth. Ymatebodd y Cadeirydd trwy ddweud fod llythyr wedi'i anfon at y Gweinidog Addysg, Mrs Kirsty Williams Aelod o'r Senedd, ar ran y Pwyllgor Craffu i gael eglurhad ynghylch arholiadau TGAU a Safon Uwch disgyblion yn y dyfodol. Darllenodd y Cadeirydd ymateb Mrs Kirsty Williams Aelod o'r Senedd, i'r cyfarfod.

Dywedodd Deiliad y Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid fod y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion wedi cyflwyno heriau cadarn i berfformiad ysgolion ar yr Ynys a'i fod yn amlwg bod safonau ysgolion ar yr Ynys wedi gwella'n sylweddol ac wedi symud ymlaen dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r cynnydd hyd yma gyda gwaith y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion o safbwynt cyflawni ei raglen waith sy'n cynnwys herio perfformiad ysgolion unigol yn gadarn.**
- **Nodi'r meysydd gwaith y rhoddwyd sylw iddynt drwy'r trefniadau newydd a gyflwynwyd wrth gysgodi'r Gwasanaeth Dysgu a GwE.**
- **Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn cymeradwyo cadernid gwaith monitro'r Panel hyd yma**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

## 5 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Sgriwtini.

Gofynnod y Cynghorydd T Ll Hughes MBE am i Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gael gwahoddiad i ddod i'r Pwyllgor Sgriwtini hwn

**PENDERFYNWYD:**

- **Nodi'r Rhaglen Waith ar gyfer y cyfnod o fis Mehefin 2021 i fis Tachwedd 2021.**
- **Estyn gwahoddiad i Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ddod i gyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini hwn yn y dyfodol.**

**Y CYNGHORYDD GWILYM O JONES**
**CADEIRYDD**

## PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

### Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 18 Mai 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, G O Jones, R Ll Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Margaret M Roberts, Nicola Roberts. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Glyn Haynes – Cadeirydd y Cyngor Sir. |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o ddidordeb.

**2 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Gwilym O Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

**3 ETOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Glyn Haynes yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

**Y CYNGHORYDD GLYN HAYNES**
**FEL CADEIRYDD Y CYNGOR SIR**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 15 Mehefin 2021 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Iaith Gymraeg 2020-21 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Cyflwyno'r adroddiad er sylwadau cyn ei gyflwyno am gymeradwyaeth dirprwyiedig i'w gyhoeddi. |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng Ieuan Williams – Deilydd Portffolio ar gyfer trawsnewid gwasanaethau a chyfrifoldeb am yr iaith Gymraeg |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Annwen Morgan,<br>Prif Weithredwr |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>01248 752108<br>JJones@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Ddim yn berthnasol |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| Gwahoddir y Pwyllgor i gyflwyno sylwadau ar yr Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Iaith Gymraeg 2020-21 cyn ei gyflwyno am gymeradwyaeth dirprwyiedig gan y Deilydd Portffolio i'w gyhoeddi. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Mae Cynllun y Cyngor 2017-2022 yn nodi y "*rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu a datblygu'r defnydd o'r iaith Gymraeg a'i chyfraniad i hunaniaeth ddiwylliannol a threftadaeth yr Ynys.*"<br><br>Bu i'r Cyngor llawn gymeradwyo Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor ar 12 Mai 2016. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu sut y gweithredwyd y polisi yn ystod 2020-21. |

| 3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini |
|---|
| **Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**<br><br>**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• hirdymor<br>• atal<br>• integreiddio<br>• cydweithio<br>• cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]**<br><br>**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:<br>• y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010<br>• y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau<br>• y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg<br>**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]** |

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
|---|
| 1 - A oes unrhyw risgiau penodol sy'n peri pryder o ran cydymffurfiaeth?<br><br>2 - Beth yw'r prif heriau yn y dyfodol o ran priflifo'r Gymraeg o fewn y Cyngor?<br><br>3 - A oes yna unrhyw ddata ychwanegol a fyddai'n ychwanegu gwerth i'r adroddiad blynyddol? |

| 5 – Cefndir / Cyd-destun |
|---|
| Mae'n ofyniad statudol i'r Cyngor ddarparu adroddiad blynyddol, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu iddo gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yr oedd o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy (yn unol â Safonau 158, 164 a 170). Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y meysydd a ganlyn:<br><br>• Camau a gymerwyd i gydymffurfio â'r Safonau Iaith<br>• Camau gweithredol i hyrwyddo a hwyluso'r Safonau Iaith<br>• Hunanreoleiddio<br>• Trefniadau Monitro<br>• Gwaith datblygol i lunio polisi<br>• Gwaith datblygol i hybu'r Gymraeg<br>• Adrodd ar berfformiad – cwynion a chanmoliaethau, sgiliau iaith staff, hyfforddiant<br>• Casgliadau ac argymhellion |

| 6 – Asesiadau Effaith |
|---|
| 6.1 – Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 |
| Gweler 6.3 isod. |
| 6.2 – Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau |
| Gweler 6.3 isod. |
| 6.3 – Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg |
| Pwrpas yr adroddiad blynyddol yw dangos sut mae'r Cyngor wedi bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ystod 2020-21. Mae rhannau 2.3 a 6.0 yn yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r camau gweithredol a gymerwyd i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Safonau hynny sy'n ymwneud ag ystyried yr effaith ar y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg. |

| 7 – Oblygiadau Ariannol |
|---|
| Amherthnasol. |

| 8 – Atodiadau |
|---|
| Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Iaith Gymraeg 2020-21 (drafft). |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| |

# Cyngor Sir Ynys Môn

# Adroddiad Blynyddol (Drafft) ar Safonau'r Iaith Gymraeg 2020-21

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn parhau'n gwbl ymrwymedig i gwrdd â gofynion Safonau'r Gymraeg ers derbyn yr Hysbysiad Cydymffurfio yn nol yn 2015. Yn ogystal â'i gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd pob dydd, gwelir hyn fel cyfraniad yn lleol tuag at yr ymdrechion cenedlaethol i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. Mae bodolaeth Safonau'r Gymraeg wedi darparu cyfle adeiladol i'r Cyngor Sir i atgyfnerthu'r gofynion a gwella ansawdd ac argaeledd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am y meysydd a ganlyn:

- Camau a gymerwyd i gydymffurfio â'r Safonau Iaith
- Camau gweithredol i hyrwyddo a hwyluso'r Safonau Iaith
- Hunanreoleiddio
- Trefniadau Monitro
- Gwaith datblygol i lunio polisi
- Gwaith datblygol i hybu'r Gymraeg
- Adrodd ar berfformiad – cwynion a chanmoliaethau, sgiliau iaith staff, hyfforddiant
- Casgliadau ac argymhellion

## Crynodeb o'r prif gyflawniadau yn ystod 2020/21

Gwelwyd cynnydd mewn sawl maes dros y flwyddyn ddiwethaf.  Mae hyn yn cynnwys:

- Ymgorffori gofynion Dogfen Gyngor Arferion Da Comisiynydd y Gymraeg (2020) o ran yr iaith Gymraeg yn y templed a'r canllawiau corfforaethol ar gyfer Asesu Effaith. (Rhan 2.3), (Rhan 6.0).

- Derbyn dyfarniad cadarnhaol yn dilyn gwaith monitro gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg (Rhan 4.0).

- Nifer helaeth o staff y Cyngor (979) yn derbyn crynodeb o'r gofynion o ran y Gymraeg ar y Porth Polisi fel rhan o'r trefniadau hunanreoleiddio (Rhan 4.0).

- Adnabod, trwy holiadur i'r cyd-gysylltwyr Safonau Iaith, yr heriau a'r arferion da o fewn y Cyngor yn ystod y cyfnod Cofid-19 (Rhan 4.0).

- Y Fforwm Iaith Sirol wedi parhau i gyfarfod yn rhithiol yn rheolaidd (Rhan 7.1.1).

- Nifer o gyflawniadau yn ystod cyfnod Cofid-19 i gynyddu'r defnydd a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y weinyddiaeth a gwasanaethau'r Cyngor (Rhan 7.1.3).

- Meddalwedd cwbl ddwyieithog cymorth technoleg 'Freshservice' wedi'i bwrcasu ar gyfer logio ceisiadau am wasanaeth (Rhan 7.1.4).

- Fflyd o loriau graeanu newydd i gyd wedi derbyn enwau Cymraeg (Rhan 7.1.5).

- O ran Mwy na Geiriau, codwyd ymwybyddiaeth staff o'r gofynion a monitrwyd sut y cofnodir y 'Cynnig Rhagweithiol' o ddewis iaith (Rhan 7.1.6).

- Yn ystod 2020-21, trwy'r rhaglen Arfor, rhoddwyd 41 grant iaith a 16 grant busnes ar Ynys Môn (Rhan 7.1.7).

- Derbyniwyd canmoliaeth ysgrifenedig gan Farnwr Ardal am y nifer uchel o weithwyr cymdeithasol sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg (12-11-20) (Rhan 8.1).

## 1.0 Cefndir a'r cyd-destun deddfwriaethol

Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ynys Môn gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, a gyflwynwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae Mesur y Gymraeg yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, ac egwyddorion sylfaenol Safonau'r Gymraeg yw na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylid hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, i'w gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd.

Mae'r Safonau yn cymryd lle'r Cynllun Iaith ac yn cynnig fframwaith newydd i bennu sut y byddwn yn:

1. cyflenwi gwasanaethau Cymraeg,
2. llunio polisi mewn modd sy'n hyrwyddo'r Gymraeg,
3. gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg,
4. hybu'r Gymraeg,
5. cadw cofnodion ynglŷn â'r Gymraeg.

Derbyniodd y Cyngor hwn Hysbysiad Cydymffurfio ar y Safonau Terfynol ar 30 Medi, 2015. Golyga hyn bod y Cyngor Sir bellach yn ddarostyngedig i'r Safonau'r Iaith Gymraeg ers i 154 ohonynt ddod yn weithredol ar 30 Mawrth, 2016 a chwech o safonau pellach ar 30 Medi, 2016. Ceir rhestr lawn ohonynt ar wefan y Cyngor Sir.

Golyga hyn y daeth Cynllun Iaith Gymraeg i ben ar 30 Mawrth, 2016 pan ddaeth y Safonau i rym. Roedd y Cyngor eisoes wedi bod yn cydymffurfio â nifer sylweddol o'r Safonau a osodwyd arno trwy weithrediad ei Gynllun Iaith, ac yn wir roedd y cynllun hwn yn mynd ymhellach na'r Safonau Iaith mewn sawl maes. Ystyriwyd na ddylid gwanhau sefyllfa bresennol y Cyngor o ran yr iaith trwy gyfyngu at gydymffurfiaeth â'r Safonau'n unig ac o ganlyniad, fe ddatblygwyd Polisi Iaith o'r newydd. Mae'r Polisi Iaith hwn yn gyplysiad o'r Cynllun Iaith a'r Safonau y mae'r cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. Fe fabwysiadwyd y Polisi Iaith hwn gan y Cyngor Sir ar 12 Mai, 2016.

## 2.0 Y Safonau Iaith

### 2.1 Yr Hysbysiad Cydymffurfio

Yn dilyn derbyn yr Hysbysiad Cydymffurfio, cynhaliwyd ymarferiad sgorio statws RAG yn erbyn pob un o'r Safonau er mwyn adnabod pa gamau gweithredu oedd angen eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

### 2.2 Cydymffurfiaeth gyda'r Safonau Iaith Cyflenwi Gwasanaeth

Mae gan y Cyngor Sir ddyletswydd i gydymffurfio â 77 o Safonau Cyflenwi Gwasanaeth ac isod ceir trosolwg o'r camau gweithredol a gymerwyd i sicrhau cydymffurfiaeth.

| Safon/au | Cynnwys y Safon/au | Camau Gweithredol |
|---|---|---|
| **7+64+67+68** | Safonau'n ymwneud â darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' o ddewis iaith | Arwydd 'cynnig rhagweithiol' wedi'i osod ym mhob derbynfa.<br><br>Bathodynnau iaith gwaith ar gael i'r holl staff.<br><br>Neges generig a chyfarwyddiadau i'w osod ar ohebiaeth, dogfennaeth a hysbysiadau swyddogol ar gael i staff. |
| **1-7**<br>**8-22**<br>**37+38**<br>**40-49**<br>**50-51**<br>**69-70** | Safonau'n ymwneud â darparu gwasanaeth wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac yn ysgrifenedig ynghyd â chyhoeddusrwydd a hysbysebu gan y Cyngor | Gweler 3.1 gogyfer y rhestr o gyfarwyddiadau a chanllawiau i staff.<br><br>Darparwyd sesiynau hyfforddiant i staff ar y gofynion cydymffurfiaeth. Bydd rhaglen dreigl ar gyfer y sesiynau hyn er mwyn cyfarch newidiadau o fewn y gweithlu. |
| **23-28**<br>**30-36** | Safonau'n ymwneud â chynnal cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus | Gweler 3.1 gogyfer y rhestr o gyfarwyddiadau a chanllawiau i staff.<br><br>Darparwyd sesiynau hyfforddiant i staff ar y gofynion cydymffurfiaeth. Bydd rhaglen dreigl ar gyfer y sesiynau hyn er mwyn cyfarch newidiadau o fewn y gweithlu. |
| **52-57**<br>**58-59** | Safonau'n ymwneud â gwefannau a gwasanaethau ar-lein ynghyd a defnydd y Cyngor o'r cyfryngau cymdeithasol | Polisi Pwrcasu TGCh a'r Manylebau ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor/darparwyr allanol yn cynnwys gofynion Safonau'r Gymraeg.<br><br>Cynnwys y wefan Ap Môn a Map Môn yn ddwyieithog. Cynnwys yn ddwyieithog ar y cyfryngau cymdeithasol (gyda'r Gymraeg yn gyntaf). Darperir ymateb yn dewis iaith y defnyddiwr. Rheolir y cynnwys gan un uned |


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| Safon/au | Cynnwys y Safon/au | Camau Gweithredol |
|---|---|---|
| | | gwasanaeth i sicrhau cysondeb a chydymffurfiaeth. |
| **71-75** | Safonau'n ymwneud â dyfarnu grantiau | Dogfen Safonau'r Gymraeg ar gyfer Dyrannu Grantiau – Canllawiau Corfforaethol ar y fewnrwyd. |
| **76-80** | Safonau'n ymwneud â dyfarnu contractau | Polisi Caffael a'r hyfforddiant 'Gwerthwch i Gymru' yn cynnwys gofynion y Safonau Iaith. |
| **155-160** | Safonau Atodol yn ymwneud â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaeth | Ceir dogfen ar ein gwefan yn nodi pa safonau mae'r Cyngor dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.<br><br>Ceir trefn gorfforaethol wrth ymdrin â chwynion iaith Gymraeg a cheir gwybodaeth am y drefn ar wefan y Cyngor.<br><br>Cyhoeddir adroddiadau blynyddol yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg. |

## 2.3 Cydymffurfiaeth gyda'r Safonau Llunio Polisi

Mae gan y Cyngor Sir ddyletswydd i gydymffurfio â 16 o Safonau Llunio Polisi ac isod ceir trosolwg o'r camau gweithredol a gymerwyd i sicrhau cydymffurfiaeth.

| Safon/au | Cynnwys y Safon/au | Camau Gweithredol |
|---|---|---|
| **88-90+94** | Safonau'n ymwneud ag ystyried yr effaith ar y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg | Templed safonol ar gael ar gyfer Asesu Effaith ar yr Iaith Gymraeg ac ar gael ar fewnrwyd y Cyngor. Gofynion o ran yr iaith Gymraeg wedi'u hymgorffori yn y templed a'r canllawiau corfforaethol o ran asesu effaith. Dogfen Gyngor Arferion Da Comisiynydd y Gymraeg (Medi 2020) hefyd ar gael ar yr un dudalen. |

| Safon/au | Cynnwys y Safon/au | Camau Gweithredol |
|---|---|---|
| | | Templed Pwyllgor Gwaith wedi ei ddiweddaru i gyfarch yr angen a'r cyswllt uniongyrchol rhwng asesiadau Effaith â phroses wneud penderfyniadau'r Cyngor.<br><br>Cyngor wedi cryfhau ei brosesau wrth lunio Canllaw i wasanaethau ar gydymffurfio gyda'r Safonau Iaith wrth gynnal ymgynghoriadau cyhoeddus. Mae'r canllaw ar gael ar fewnrwyd y Cyngor ac mae'r angen i gynnwys y cwestiwn isod mewn dogfennau ymgynghori wedi'i nodi:<br><br>"*Rydym wedi cynnal Asesiad Effaith ar yr effeithiau positif ac andwyol ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg. Yn eich barn chi, a ydym wedi methu rhywbeth*?"<br><br>Mae arweiniad a chefnogaeth gorfforaethol ar y maes asesu effaith ar gael i wasanaethau. |

**2.4 Cydymffurfiaeth gyda'r Safonau Gweithredu**

Mae gan y Cyngor Sir ddyletswydd i gydymffurfio â 53 o Safonau Gweithredu ac isod ceir trosolwg o'r camau gweithredol a gymerwyd i sicrhau cydymffurfiaeth.

| Safon/au | Cynnwys y Safon/au | Camau Gweithredol |
|---|---|---|
| **98** | Safon yn ymwneud â datblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol | Mae Canllaw Gweinyddu Mewnol ar gael ar y fewnrwyd fel arweiniad i staff ers 1-4-19. |
| **99-105** | Safonau'n ymwneud â darparu dogfennau cyflogaeth yn Gymraeg | Mae dewis iaith mwyafrif yr aelodau staff wedi'i sefydlu ar gyfer derbyn y cytundeb gwaith ac unrhyw ffurflenni, dogfennau neu ohebiaeth yn |

| Safon/au | Cynnwys y Safon/au | Camau Gweithredol |
|---|---|---|
| | | ymwneud â'i g/chyflogaeth. Os nad yw hyn yn hysbys, bydd y dogfennau'n cael eu gyrru'n ddwyieithog. |
| **105-111** | Safonau'n ymwneud â pholisïau Adnoddau Dynol | Holl bolisïau adnoddau dynol yn cael ei darparu'n ddwyieithog i staff ar y fewnrwyd. |
| **112-119** | Safonau'n ymwneud â'r Drefn Gwyno a Disgyblu | Trefn Gwyno a phroses Disgyblu'r Cyngor ar gael i staff trwy gyfrwng y Gymraeg |
| **120-126** | Safonau'n ymwneud â'r fewnrwyd ac adnoddau TGCh | Mewnrwyd y Cyngor yn ddwyieithog.<br><br>Meddalwedd Cysgliad er mwyn gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg ar gael i holl staff y Cyngor ei lawr lwytho. |
| **127-133** | Safonau'n ymwneud â meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi'r gweithlu | Mae sgiliau iaith staff yn cael eu nodi yn ystod y broses recriwtio a'r gwerthusiad blynyddol. Gall staff nodi eu dewis iaith ar gyfer hyfforddiant ar y ffurflen gais am gwrs byr. Darperir hyfforddiant, anogaeth ac amser yn ystod y diwrnod gwaith i ddatblygu sgiliau iaith dysgwyr a siaradwyr rhugl. |
| **134+135** | Safonau'n ymwneud â geiriad a logo ar gyfer llofnod e-bost staff | Bwletin cyfarwyddyd i staff a logos ar gyfer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ar gael i'w llawr lwytho. |
| **136-140** | Safonau'n ymwneud â recriwtio ac apwyntio | Canllawiau recriwtio newydd yn nodi pob swydd yn Gymraeg hanfodol a bod y lefel ar gyfer y 4 sgil i'w gweld yn y swydd ddisgrifiad. Dogfennau recriwtio a swydd ddisgrifiadau i gyd ar gael yn ddwyieithog. |
| **167-172** | Safonau Atodol yn ymwneud â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaeth | Ceir dogfen ar ein gwefan yn nodi pa safonau mae'r Cyngor dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. |

| Safon/au | Cynnwys y Safon/au | Camau Gweithredol |
|---|---|---|
| | | Ceir trefn gorfforaethol wrth ymdrin â chwynion iaith Gymraeg a cheir gwybodaeth am y drefn ar wefan y Cyngor.<br><br>Cyhoeddir adroddiadau blynyddol yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg. |

### 2.5 Cydymffurfiaeth gyda'r Safonau Hybu

Mae gan y Cyngor Sir ddyletswydd i gydymffurfio â 4 o Safonau Hybu ac isod ceir trosolwg o'r camau gweithredol a gymerwyd i sicrhau cydymffurfiaeth.

| Safon/au | Cynnwys y Safon/au | Camau Gweithredol |
|---|---|---|
| **145+146** | Safonau'n ymwneud â hybu'r Gymraeg ac i hwyluso'r defnyddio'r Gymraeg yn ehangach | Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021 gyda tharged i gynyddu'r canran o siaradwyr Cymraeg i 60.1% erbyn 2021<br><br>Cefnogi Diwrnod Cenedlaethol Hawliau'r Gymraeg - Mae Gen i Hawl – ar 7 Rhagfyr 2020 drwy'r cyfryngau cymdeithasol. |
| **173+174** | Safonau Atodol yn ymwneud â'r Safonau Hybu | Ceir dogfen ar ein gwefan yn nodi pa safonau mae'r Cyngor dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. |

## 3.0 Camau Gweithredol i hyrwyddo a hwyluso'r Safonau Iaith

### 3.1 Deunyddiau i staff

Darperir cyfres o ganllawiau a chyfarwyddiadau i staff ar fewnrwyd y Cyngor i'w cynorthwyo i sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion y Safonau Iaith sef:

- Polisi Iaith Gymraeg
- Cyfres o fwletinau gwybodaeth thematig ar:
  - Wasanaethau wyneb yn wyneb
  - Wasanaethau dros y ffôn
  - Wasanaethau trwy lythyr neu e-bost

- Baratoi dogfennau, y wefan, gwasanaethau ar-lein, cyfryngau cymdeithasol a darparu cyrsiau addysgol
- Ystyried y Gymraeg wrth ymgynghori, gwneud gwaith ymchwil a datblygu cynigion

- Canllawiau corfforaethol ar gyfer Dyrannu Grantiau
- Siarter Gwasanaeth Cwsmer – canllawiau i staff (sy'n cynnwys gofynion y Safonau Iaith)
- Canllaw ar gynnal Cyfarfodydd Dwyieithog
- Canllaw ar Weinyddu Mewnol
- Neges safonol ar gyfer e-byst, llythyrau, cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol
- Logos iaith gwaith ar gyfer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i'w llawr lwytho
- Cyfarwyddiadau ar sut i lawr lwytho'r meddalwedd gogyfer fersiwn Cymraeg o Microsoft Windows
- Templed ar gyfer Asesu Effaith ar y Gymraeg
- Canllaw i wasanaethau ar gydymffurfio gyda'r Safonau Iaith wrth gynnal ymgynghoriadau cyhoeddus.

### 3.2. Strwythurau/gweithgaredd i gefnogi'r maes

- Cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r cyd-gysylltwyr Safonau Iaith Gymraeg o fewn pob gwasanaeth. Mae'r rhwydwaith hwn yn hynod ddefnyddiol er mwyn rhannu arfer da, herio a chefnogi ac adnabod unrhyw rwystrau ar lefel gwasanaeth;
- Mynychwyd cyfarfodydd o'r Penaethiaid Gwasanaeth a thimau rheoli'r gwasanaethau unigol, yn ôl y galw, i ddarparu diweddariadau ac arweiniad ar ofynion Safonau'r Gymraeg.

Cydnabyddir bod y broses o godi ymwybyddiaeth yn un parhaus gyda'r nod o sicrhau bod y gofynion yn cael eu prif llifo'n naturiol i waith y Cyngor.

## 4.0 Hunanreoleiddio

Mae Fframwaith Rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg yn gosod disgwyliad ar y Cyngor i hunanreoleiddio ei berfformiad yn erbyn gofynion Safonau'r Gymraeg. Mae hyn oherwydd mai'r sefydliad, nid Comisiynydd y Gymraeg sydd o dan ddyletswydd statudol i gydymffurfio â'r safonau perthnasol.

Cynhaliodd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ymarferiad siopwr cudd ar y Cyngor am y cyfnod 2019-20 ac fe dderbyniwyd canlyniadau'r ymarferiad mewn gohebiaeth dyddiedig 7 Awst 2020. Roedd yr ymarferiad yn profi'r agweddau a ganlyn i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Safonau Iaith Gymraeg:

- Gohebiaeth
- Galwadau ffôn
- Ffurflenni
- Datganiadau i'r wasg
- Llyfryn/pamffledi/taflen/cerdyn
- Hunaniaeth gorfforaethol
- Gwefan

- Facebook a Twitter
- Swyddi
- Derbynfeydd
- Peiriannau hunanwasanaeth
- Arwyddion

Cafwyd y dyfarniad canlynol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar berfformiad y Cyngor:

'***Roedd canlyniadau eich sefydliad yn ystod yr arolygon yn ganmoladwy iawn ac nid oes unrhyw faterion yn codi o'r canlyniadau sydd angen sylw'.***

Er y dyfarniad cadarnhaol uchod, fel rhan o'r broses hunanreoleiddio cylchredwyd holiadur i'r Cyd-gysylltwyr Safonau Iaith o fewn gwasanaethau'r Cyngor i gael darlun o'r sefyllfa gyda'r Gymraeg yn ystod y cyfnod Cofid-19. Gofynnwyd iddynt amlinellu'r sefyllfa mewn perthynas â chwrdd â Safonau'r Gymraeg (gan gyfeirio yn arbennig at Asesu Effaith a chynnal cyfarfodydd llesiant), yr heriau a'r arferion da. Fe adroddwyd ar y canfyddiadau i'r Uwch Dim Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth ar 5 Hydref, 2020.

Ar sail yr ymatebion a dderbyniwyd i'r holiadur, mae'n ymddangos nad oes heriau o ran cydymffurfio â'r Safonau Iaith a darparu gwasanaeth i'n cwsmeriaid yn eu dewis iaith. Wrth reswm, mae'r dulliau darparu gwasanaeth wedi gorfod newid gyda'r cyswllt yn bennaf yn ddigidol, trwy lythyr neu tros y ffôn.

Isod, gweler grynodeb o'r prif bwyntiau a nodwyd gan y gwasanaethau:

**Heriau**

- Her ar brydiau gyda chyfieithu ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol yn y Gwasanaethau Cymdeithasol â chydweithwyr o asiantaethau eraill sydd yn ddi-gymraeg. Serch hynny, rheolwyr yn adrodd eu bod nhw'n hyderus bod gan y gwasanaeth y gallu i ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg, a bod defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaeth, gan gynnwys cyfarfodydd llesiant sydd yn cael eu cynnal yn rhithiol, yn eu dewis iaith.
- Rhai prosiectau a fwriadwyd eu cynnal ar y cyd hefo'r Urdd a'r Ffermwyr Ifanc oedd o fewn y targedau ddim wedi digwydd. Hefyd gweithdai ar 'Y Gymraeg fel Sgil' heb eu cynnal mewn clybiau na grwpiau Trac oherwydd bod y clybiau ar gau, a dim gwaith grŵp yn digwydd hefo Trac.
- Ni chynhaliwyd sesiynau Cynllun Cyfeirio at Ymarfer Cenedlaethol (NERS) yn ystod y cyfnod Cofid-19 gan mae'n debyg y byddai sawl aelod o'r sesiynau hyn yn debygol o fod yn y risg categori uchel o gael eu heffeithio gan Covid-19. Mae cefnogaeth ar gael i'r cwsmeriaid hyn drwy gyswllt e-bost, a hynny yn dewis iaith y cwsmer.

**Arferion da**

- Hyfforddiant iaith Gymraeg a sesiynau Anwytho Staff yn cael eu cynnal yn rhithiol gan y Gwasanaeth Adnoddau Dynol. Sesiynau Anwytho hefyd yn digwydd yn rhithiol yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Nododd un gwasanaeth efallai bod rhai dysgwyr yn fwy cyfforddus gyda hyn nac mewn ystafell/swyddfa llawn pobl.

- Yn ystod y cyfnod Cofid-19, mae’r Gwasanaethau Oedolion wedi dechrau cynnwys ystadegau ar gyfer cofnodi’r ‘Cynnig Rhagweithiol’ a dewis iaith y defnyddiwr gwasanaeth o fewn adroddiadau data sydd yn cael eu rhannu efo rheolwyr tîm yn rheolaidd, er mwyn monitro a gwella cofnodi.
- Gwasanaethau Oedolion wedi dechrau cynnwys ystadegau ar gyfer cofnodi’r ‘Cynnig Rhagweithiol’ a dewis iaith y defnyddiwr gwasanaeth o fewn adroddiadau data sydd yn cael eu rhannu efo rheolwyr tîm yn rheolaidd, er mwyn monitro a gwella cofnodi.
- Gwasanaeth Adnoddau Dynol yn sicrhau bod llythyrau yn cael eu gwirio cyn iddynt gael eu hanfon – un o’r elfennau yw gwirio dewis iaith.
- Uwch swyddogion/swyddfa’r wasg i wirio unrhyw beth sy’n mynd allan i’r cyhoedd yn Gwarchod y Cyhoedd.
- Datblygu Banc o adnoddau ar gyfer Sesiynau Agored Cymru yn ddwyieithog yn ystod cyfnod Cofid-19 fel bod y disgyblion mwyaf bregus yn mynd i barhau i weld yr iaith wrth gymryd rhan, hyd yn oed os nad ydynt yn gallu ei siarad, neu yn dewis ei defnyddio.
- Trafodaethau ar y gweill i gychwyn Gwasanaeth All-ymestyn ar y stryd i bobl ifanc, tra bod clybiau ar gau, fel bod cyfle i bobl ifanc siarad hefo gweithiwr. Bydd angen sicrhau bod o leiaf un aelod o bob tîm ar y stryd yn rhugl yn y Gymraeg, fel sy’n digwydd mewn clybiau ieuenctid arferol.

Ers i’r Safonau ddod i rym, fel rhan o’r broses hunanreoleiddio, mae’r Cyngor wedi creu templed sgorio i Benaethiaid Gwasanaeth adolygu eu cydymffurfiaeth gyda’r Safonau. Mae’r Prif Weithredwr a’r Swyddog Iaith Gymraeg wedi bod yn cynnal cyfarfodydd un i un yn flynyddol gyda phob Pennaeth Gwasanaeth. Trafodir y canfyddiadau ac adnabod unrhyw feysydd sy’n cynnig heriau penodol. Yn ystod y broses hon, bydd cyfle i adnabod unrhyw gefnogaeth bellach sydd ei hangen ar y gwasanaethau unigol. Mae ymdrech fwriadus barhaus mewn lle i gynyddu’r sgoriau cydymffurfiaeth yn erbyn pob agwedd o’r Safonau. Mae’r broses wedi cychwyn eleni drwy ddosbarthu’r templed i’r gwasanaethau gyda chais i’w gwblhau.

Cyfeiriwyd mewn adroddiadau blaenorol at y ffaith fod gan y Cyngor system electronig ar gyfer derbyn polisïau sy’n gosod disgwyliadau ar staff sydd â chyfrifon e-bost y Cyngor i dderbyn polisïau corfforaethol allweddo (y Porth Polisi). Mae crynodeb o’r gofynion o ran y Gymraeg yn rhan o set graidd o bolisïau corfforaethol y mae’n rhaid eu derbyn pob dwy flynedd. Cyflwynwyd y crynodeb i’w dderbyn am y tro cyntaf ym mis Ebrill 2018.

Fe nodwyd yn yr adroddiad y llynedd y penderfynwyd atal y broses ar 23 Mawrth 2020, a hynny oherwydd yr angen i ail-flaenoriaethu gwaith y Cyngor er mwyn ymateb i’r argyfwng Covid-19. Bu i’r broses ail-gychwyn ar 1 Medi 2020, pryd y cyflwynwyd y crynodeb o’r gofynion o ran y Gymraeg i’w dderbyn am yr ail dro. Ar 23 Mawrth 2021, roedd 979 o staff wedi derbyn y crynodeb, a hynny allan o’r 997 a oedd yn gymwys i’w cynnwys yn y data cydymffurfiaeth ar y pryd. (Mae’r wybodaeth yn y system yn fyw a’r niferoedd sy’n gymwys i’w cynnwys yn newid yn ddyddiol i adlewyrchu’r niferoedd sy’n ymuno, gadael, ar secondiad ayyb.).

Mae’r Safonau Iaith a gwreiddio’r drefn hunanreoleiddio wedi cael eu gosod fel un o dargedau perfformiad blynyddol ar gyfer y Penaethiaid Gwasanaeth a bydd y rhain yn cael eu monitro gan Uwch Dim Arweinyddiaeth y Cyngor.

## 5.0 Trefniadau Monitro

Ceir y trefniadau monitro a ganlyn:

- Swyddog Iaith Gymraeg yn cyfarfod gyda'r Prif Weithredwr yn rheolaidd i'w diweddaru
- Swyddog Iaith Gymraeg yn adrodd yn rheolaidd i gyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth a Grŵp Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg ar faterion sydd angen sylw pellach (mae aelodaeth Grŵp Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg yn cynnwys y Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg ynghyd â Chadeiryddion Pwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor);
- Swyddog Iaith Gymraeg yn ymweld â thimau rheoli gwasanaethau i ddarparu arweiniad yn ôl y galw;
- Cyd-gysylltwyr Safonau Iaith yn cynorthwyo Penaethiaid Gwasanaeth i fonitro cydymffurfiaeth o fewn y gwasanaethau.

## 6.0 Gwaith Datblygol i Lunio Polisi

Nododd Comisiynydd y Gymraeg wrth lansio ei Adroddiad Sicrwydd 2019-20, 'Cau'r Bwlch' ei fod yn disgwyl bellach i'r gydymffurfiaeth ar lefel gweithredol fod yn uchel (h.y. y meysydd uchod). Y disgwyliad rŵan ydy bod sefydliadau'n canolbwyntio ar y meysydd strategol megis Asesu Effaith ar y Gymraeg. Fe gyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg ddogfen gyngor arferion da ym Medi 2020 ac mae'r gofynion wedi'u hymgorffori i'n prosesau wrth wneud cynigion/llunio polisïau. Mae templedi a chanllawiau corfforaethol o ran asesu effaith ar gydraddoldeb a'r Gymraeg wedi'u diweddaru ac ar gael ar fewnrwyd y Cyngor. Mae dogfen gyngor Comisiynydd y Gymraeg hefyd ar gael ar yr un dudalen ar y fewnrwyd ac mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol newydd hefyd wedi'i hymgorffori yn y ddogfennaeth.

## 7.0 Gwaith Datblygol i Hybu'r Gymraeg

### 7.1.1 Fforwm Iaith Strategol Sirol

Mae Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn yn bodoli ar lefel sirol er mwyn rhoi ffocws strategol i'r Iaith Gymraeg ar yr Ynys. Sefydlwyd y Fforwm ym Medi, 2014 gan y Cyngor Sir mewn cydweithrediad â'r Fenter Iaith a phartneriaid allweddol eraill. Yn 2016, i gwrdd â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg, fe esblygodd rôl y Fforwm i ddatblygu a monitro'r Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021. Ers i'r Fforwm Addysg ddod i ben, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am sicrhau gorolwg strategol dros y maes a monitro cynnydd i'r fforwm hwn ym mis Medi, 2017. Mae'r Fforwm Iaith Strategol wedi parhau i gyfarfod yn rhithiol yn rheolaidd yn ystod y cyfnod Cofid-19. Fe adolygwyd cylch gorchwyl y Fforwm ym Medi, 2020 ac mai'r rôl a chyfrifoldeb fel a ganlyn:

- Cyfrannu tuag at darged Llywodraeth Cymru yn ei strategaeth *'Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr'* trwy'r weledigaeth leol i weld cynnydd yn y nifer sy'n siarad a defnyddio'r Gymraeg (erbyn Cyfrifiad 2021 bod y ganran yn codi i o leiaf 60.1% fel ag yr oedd yn 2001).

- Cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

- Cynyddu ymwybyddiaeth pobl o werth y Gymraeg fel rhan o'n treftadaeth ac fel sgil yn y Gymru gyfoes.

- Cydweithio ar lefel partneriaethol drwy gyd-drafod, drwy rannu syniadau a thrwy sicrhau na ddyblygir gwaith y sefydliadau sydd yn y maes.

- Cydweithio ar lefel partneriaethol i ganfod bylchau yn y ddarpariaeth a thrwy lunio gweithgareddau i gwrdd â'r angen.

- Adnabod cyfleoedd i rannu arfer da.

- Cydweithio i gyfarch yr heriau a'r cyfleoedd a gaiff datblygiadau economaidd ar y Gymraeg.

- Creu cyfleoedd, i hyrwyddo'r Gymraeg yn yr economi leol yn gyffredinol ac yn y gwasanaethau cyhoeddus – mewn llywodraeth leol, iechyd, addysg, hamdden ayyb.

- Pwyso ar berchnogion y diwydiannau newydd a ddaw yma i arddel y Gymraeg a'i defnyddio.

- Pwysleisio gwerth economaidd-ddiwylliadol yr iaith yn y diwydiant twristiaeth.

- Nodi pwysigrwydd yr iaith wrth yr awdurdodau sy'n gyfrifol am gynlluniau adfywio

- Adnabod cyfleoedd i hyrwyddo gwaith y Fforwm mewn amrywiol ffyrdd i'r cyhoedd.

Mae gan y Fforwm Iaith Sirol drefniadau craffu ar gyfer arfarnu cynnydd y Strategaeth yn erbyn y targedau. Mae Cadeirydd y Fforwm yn annibynnol sy'n ddull effeithiol o gyflwyno her ddiduedd i holl aelodau'r Fforwm. Mae'r Fforwm yn cwrdd yn fisol i fonitro cynnydd y Strategaeth gydag arweinydd ar y meysydd penodol yn adrodd ar eu gweithgareddau gyda gweddill y Fforwm yn craffu. Cryfder arall y Fforwm ydy ei fod yn gwahodd siaradwyr o'r tu allan i annerch y partneriaid ac mae hyn yn gyfle i ehangu dylanwad a chodi ymwybyddiaeth ymhellach.

### 7.1.2 Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021

Mabwysiadwyd y Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021 gan y Cyngor Sir ar 27 Medi, 2016. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu sut y bwriedir mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach o fewn yr ardal ac yn gosod targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd dan sylw. Mae'r weledigaeth wedi'i osod erbyn Cyfrifiad 2021 i weld cynnydd yn y nifer sy'n siarad Cymraeg a bod y ganran yn codi i o leiaf 60.1% fel ag yr ydoedd yn 2001. Bydd angen i'r Fforwm Iaith a'r Cyngor Sir roi sylw i'r camau nesaf yn ystod 2021/22.

Ar gyfer y strategaeth gyntaf hon, cytunodd y Fforwm Iaith Strategol i ganolbwyntio ar dair thema allweddol sef:

- **Plant a Phobl Ifanc a’r Teulu**
- **Y Gweithlu, Gwasanaethau Cymraeg, Y Seilwaith**
- **Y Gymuned**

Rhoddwyd statws o felyn i’r cynnydd y gwaith ar ddiwedd y bedwaredd flwyddyn gan gydnabod na fu’n bosib i nifer o’r partneriaid allweddol gwblhau na chynnal gweithgareddau wyneb yn wyneb oherwydd y cyfnod Cofid-19. Daethpwyd i’r casgliad hwn ar sail tystiolaeth a gafwyd trwy anfon holiadur allan i bob partner yn gofyn am drosolwg o’r hyn gyflawnwyd a’r cyfleoedd a’r heriau a wynebwyd. Mynegwyd pryder am yr effaith fydd y cyfnod Cofid-19 wedi ei gael ar niferoedd sy’n mynychu’r darpariaethau cymunedol megis y clybiau ieuenctid, yr Urdd a’r Gwasanaeth Ieuenctid a sut fyddai hyn yn dylwanwadu ar aelodaeth i’r dyfodol.

Isod ceir crynodeb o’r cyflawniadau ar gyfer Cynllun Gweithredu Blwyddyn 5 y Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021 yn ystod cyfnod adrodd yr adroddiad hwn:

- Adroddiadau gan gynnwys diweddariad datblygiadau diweddar parthed CSGA Môn wedi’u rhannu gyda Llywodraeth Cymru Rhagfyr 2020 a Mawrth 2021;
- Mewnrwyd wedi ei chreu “Caru iaith” ar gyfer cydweithio ar CSGA a chynlluniau’r Gymraeg;
- Adroddiad a diweddariad ar CSGA Môn wedi’i rannu gyda Llywodraeth Cymru Rhagfyr 2020;
- Aelodau staff ysgol yn parhau i fanteisio ar gyrsiau sabothol y Gymraeg;
- Canolfannau Iaith wedi datblygu darpariaeth Dysgu o Bell dros y cyfnod clo ac wedi croesawu dysgwyr yn ôl ym mis Tachwedd 2020 a Mawrth 2021 yn unol â chanllawiau COVID llywodraeth Cymru;
- Cynllun Carlam ar gyfer y Gymraeg yn cael ei chyd-gynhyrchu gyda GwE, Siarter Iaith ac Uwch Swyddog Cynradd Môn. Cynhelir hyfforddiant torfol ar Ebrill 28 a safle we i gefnogi'r cynllun ar gael i bob ysgol ym Môn
- Y Fforwm a’r Cyngor wedi bod yn rhan o’r broses o lunio proffil Iaith Môn i Lywodraeth Cymru (Ionawr 2021);
- Y Fforwm a'r Gwasanaeth Dysgu wedi bod yn rhan o’r broses o lunio ymateb i ymgynghoriad ar ail-gategoreiddio ysgolion yn seiliedig ar iaith (Mawrth 2021);
- Y Fenter Iaith wedi cynnal gweithgareddau gyda theuluoedd, 3 cyfraniad gan y partneriaid i Fore Hwyl y Cyngor Sir, 1 cyflwyniad ymwybyddiaeth iaith gan MIM i rieni maeth drwy drefniant gyda’r Cyngor 3 sesiwn arddangos defnydd o apiau Cymraeg mewn meithrinfeydd, 1 sesiwn hyfforddiant i 11 staff blynyddoedd cynnar ar ddefnyddio apiau Cymraeg gyda phlant;

- Y Fenter Iaith hyd nes cyfyngiadau Cofid-19 wedi  cynnal 7 digwyddiad trochi yn y Gymraeg i rieni a phlant gyda chyfartaledd o 16 yn mynychu bob sesiwn;
- Y Fenter Iaith yn darparu cyflwyniad ymwybyddiaeth iaith i 14 o staff Medrwn Môn;
- Y Fenter Iaith yn ehangu’r dathliadau dydd Gŵyl Dewi cyfrwng Cymraeg ar draws yr ynys;
- Swyddog Helo Blod y Fenter Iaith wedi datblygu cyswllt newydd dwys gyda 25 busnes, a chefnogi'r rhain i gyflwyno’r Gymraeg am y tro cyntaf. Yn ogystal, a hyrwyddo a rhannu’r gwasanaeth gyda dros 70 o fusnesau newydd;
- 48 sesiwn Theatr Ieuenctid Môn wedi eu cynnal ers Ionawr 2020;
- Siarter Iaith – cynnal cyfarfod cyntaf o Fforwm Iaith y disgyblion dalgylch Caergybi o dan faner y Siarter, gyda phob ysgol yn danfon dau gynrychiolydd a thrafodaeth ar sut i annog mwy o Gymraeg yn y gymuned a busnesau. (21 o ddisgyblion);
- Aelod o staff y Gwasanaeth Ieuenctid wedi ennill Gwobr Dysgwr Cymraeg y flwyddyn yng Ngwobrau Rhagoriaeth yr Awdurdod;
- Dros 1,000 o bobl ifanc wedi ymweld â thudalennau cyfryngau cymdeithasol i Gig Rhithiol gyda Fleur de Lys a Gwilym a drefnwyd gan yr Urdd, CFfI a’r Gwasanaeth Ieuenctid, wedi ei ariannu hefo Grant Cymorth Ieuenctid Llywodraeth Cymru i ddathlu dydd Gŵyl Dewi;
- Sesiynau ar bwysigrwydd y Gymraeg i gyflogwyr lleol wedi eu cynnal mewn 25 o glybiau Ieuenctid y Sir;
- Y Cyngor wedi cynnal y cyfarfod cyntaf gyda phencampwyr iaith y Cynghorau Tref a Chymuned ar 22-1-20;
- Y Cyngor wedi cynnal cyfarfodydd y Cyngor Sir, y Pwyllgor Gwaith a’r Pwyllgor Cynllunio gan ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd trwy gyfrwng Zoom yn ystod y cyfnod Cofid-19;
- Y Cyngor wedi parhau i gynnal sesiynau hyfforddiant iaith Gymraeg, Safonau’r Gymraeg trwy’r broses Anwytho ac ar y ‘Cynnig Rhagweithiol’ yn rhithiol;
- 49 o eiddo tai cymdeithasol wedi cael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21;
- Y Cyngor wedi prynu 20 o dai fforddiadwy yn ôl i’r stoc tai;
- 141 o ymgeiswyr Môn wedi cofrestru ar wefan Tai Teg yn ystod 2020/21:
- Cwblhawyd adeiladu 21 o dai newydd yn ogystal â chychwyn adeiladu 34 ychwanegol;
- Cyngor wedi prynu 3 tŷ ac wrthi eu hadnewyddu i werthu ymlaen fel tai fforddiadwy o dan gynllun rhannu ecwiti, 2 dy wedi eu gwerthu ac un yn cael ei werthu ar hyn o bryd (Mawrth, 2021);
- Y Fforwm wedi parhau i gwrdd yn rhithiol trwy gyfnod Cofid-19.

### 7.1.3 Gweinyddiaeth a hyrwyddo’r Gymraeg

I gyflawni un o feysydd blaenoriaeth Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021, mae’r Cyngor Sir wedi mabwysiadu dull graddol bwriadus o gynyddu’r defnydd o’r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth y Cyngor.  Er mwyn gweithio tuag at y nod hwn, mae gwaith ar droed i weithio’n ddwys gyda gwasanaethau yn eu tro i sicrhau bod y gefnogaeth angenrheidiol mewn lle i gynyddu’r defnydd o’r Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig.  Mae rhaglen dreigl 6 blynedd mewn lle ar gyfer y gwaith hwn.

Oherwydd Cofid-19, mae'r rhan fwyaf o staff y Cyngor Sir yn gweithio o adref ar hyn o bryd ac mae hyn wedi lleihau ar y cyfleoedd anffurfiol i staff ymarfer eu Cymraeg gyda chydweithwyr wyneb yn wyneb. Serch hynny, gan fod gan staff gyswllt dyddiol dros y ffôn a Teams ac mewn cyfarfodydd gyda defnyddwyr gwasanaeth a phartneriaid, mae cyfle iddynt ymarfer eu Cymraeg wrth ymdrin â busnes dydd i ddydd i wneud y defnydd mwyaf posib o'r Gymraeg. Parheir i gefnogi staff yn y 3 gwasanaeth sy'n derbyn cefnogaeth ddwys (Tai, Gwarchod y Cyhoedd a Hamdden) a dyma grynodeb o'r cyflawniadau yn ystod y cyfnod adrodd:

- Cynnal sesiwn Panad a Sgwrs drwy Microsoft Teams gan y Swyddogaeth Gwarchod y Cyhoedd pan oedd hi'n bosib gwneud hynny;
- Parheir i ddatblygu sgiliau iaith y staff drwy hyfforddiant rhithiol;
- Cyfarfodydd staff yn galluogi staff i gyfrannu'n Gymraeg;
- Rhoddir dewis iaith i staff gyda'r broses Werthuso Flynyddol.
- System bydis yn weithredol o fewn y Swyddogaeth Hamdden, fodd bynnag gyda'r Canolfannau Hamdden wedi bod ar gau am rannu helaeth o'r flwyddyn prin iawn yw'r cyfleoedd wedi bod i fwrw ymlaen gyda'r cynllun, gobeithio y bydd y Canolfannau yn gallu ail-agor ym mis Mai 2021;
- Gwasanaeth Tai wedi ymrwymo i gynnig gwasanaeth mentora a gwella defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar gyfer staff sy'n dysgu neu ddymuno gwella eu Cymraeg;
- Cofnodi'r nifer o adroddiadau gwerthuso blynyddol sy'n cael eu hysgrifennu yn y Gymraeg a'r nifer o gyfweliadau gwerthuso a gynhelir yn y Gymraeg yn y Gwasanaeth Tai.

Mae'r Tîm Ymyrraeth Gynnar ac Ataliol o fewn Gwasanaethau Plant y Cyngor yn cymryd rhan, fel un partner, ym mheilot Prifysgol Bangor o'r rhaglen ARFer. Pwrpas y rhaglen hon yw defnyddio cyfuniad o seicoleg newid ymddygiad a chynllunio iaith i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gweithle dwyieithog er mwyn cyfrannu tuag at y nod, Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr. Yn ystod y cyfnod Cofid-19 nid yw wedi bod yn bosib i staff y Brifysgol arsyllu arferion iaith staff ar gyfer y prosiect ac mae'r ffocws ARFer wedi newid i ddatblygu 'toolkit'. Mae trefniadau ar y gweill i'r Gwasanaeth Ieuenctid gymryd rhan mewn peilot i'w dreialu.

Gweler uchod dan 4.0 am enghreifftiau pellach o arfer da o fewn y gwasanaethau i hyrwyddo'r Gymraeg,

### 7.1.4 Technoleg Gwybodaeth

Mae'r Cyngor Sir wedi gorfod addasu dros y misoedd diwethaf i gynnal ei brif bwyllgorau a chyfarfodydd mewnol trwy gyfrwng Teams a Zoom. Cafwyd trafferthion gyda chynnal llif y cyfieithu ar y pryd wrth ddefnyddio Teams ac yn anorfod bu rhaid trosglwyddo'r prif bwyllgorau i Zoom sydd â sianel ar wahân ar gyfer y cyfieithu. Bellach, mae pob Pwyllgor yn cael ei gynnal yn rhithiol a'i weddarlledu.

Mae'r Cyngor Sir hefyd wedi pwrcasu meddalwedd cymorth technoleg gwybodaeth o'r enw Freshservice i ddefnyddwyr gwasanaeth edrych i fyny am broblemau cyffredin ac i logio ceisiadau am wasanaeth. Roedd ymgorffori'r disgwyliadau o ran y Gymraeg yn rhan greiddiol o bwrcasu'r meddalwedd ac mae'n parchu dewis iaith y defnyddiwr ar draws y wefan, yr ap a'r 'chatbox'.

### 7.1.5 Wyneb cyhoeddus

Yn ddiweddar, buddsoddodd y Cyngor Sir £280,000 er mwyn uwchraddio ei lorïau graeanu, sy’n hanfodol er mwyn cynnal gwytnwch y ffyrdd dros y gaeaf ar yr Ynys. Mae’r chwe lori graeanu wedi helpu i gadw ffyrdd blaenoriaeth yn glir o rew ac eira a chadw gyrwyr mor ddiogel â phosibl.

Mae’r lorïau hefyd wedi cael enwau unigryw eu hunain, sy’n hyrwyddo ein diwylliant lleol a’r Iaith Gymraeg ac sy’n adlewyrchu’r ardaloedd lle byddant yn teithio.

- Mae Dwynwen yn gweithio yn ardal de Ynys Môn
- Mae Cybi yn gweithio yn ardal orllewinol Ynys Môn
- Mae Eilian yn gweithio yn ardal gogledd gorllewinol Ynys Môn
- Mae Alaw yn gweithio yn ardal gogledd dwyreiniol Ynys Môn
- Mae Seiriol yn gweithio yn ardal ddwyreiniol Ynys Môn

Petai un o’r cerbydau torri i lawr, mae chweched lori o’r enw Mona, y gellir ei hanfon allan er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth graeanu yn parhau i redeg yn esmwyth.

### 7.1.6 Mwy na Geiriau

Gweler isod grynodeb o’r gweithgaredd i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth am ofynion Mwy na Geiriau yn ystod y cyfnod adrodd dan sylw:

- Yn ystod 2020, mae cyflwyniadau o ran gweithrediad y Safonau Iaith Gymraeg a chyfathrebu a gofal cwsmer (yn cynnwys y gofyniad i wneud cynnig rhagweithiol o wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg i’r holl gwsmeriaid) wedi ei ddarparu mewn cynadleddau staff.
- Mae codi ymwybyddiaeth am y rhaglen Mwy na Geiriau a’r Safonau Iaith Gymraeg yn parhau i fod yn elfen hanfodol o’r holl gyrsiau cynefino staff.
- Mae pob aelod o staff ar y system e-bost wedi derbyn nodyn atgoffa ysgrifenedig o’r angen i ateb y ffôn yn ddwyieithog.
- Mae ffyrdd o fonitro sut y cofnodir y Cynnig Rhagweithiol o ddewis iaith gan ddefnyddwyr gwasanaeth, drwy gael ystadegau o’r system cadw cofnodion electronig, wrthi’n cael ei datblygu er mwyn i berfformiad mewn perthynas â chofnodi hyn allu cael ei fonitro.
- Mae gwasanaethau yn parhau i fonitro a sicrhau bod digon o staff sy’n siarad Cymraeg ar draws pob maes o’r Gwasanaeth er mwyn gallu darparu gwasanaethau Cymraeg ym mhob rhan o’r Gwasanaeth.
- Mae Gwasanaethau yn parhau i annog staff sy’n dysgu Cymraeg i gymryd rhan yn yr hyfforddiant perthnasol er mwyn iddynt allu datblygu eu sgiliau iaith.
- Parhau i rannu arfer da yn Fforwm Mwy na Geiriau Gogledd Cymru.

### 7.1.7 Rhaglen Arfor

Bu'r rhaglen yn weithredol ar Ynys Môn rhwng mis Rhagfyr 2019 a mis Ebrill 2021 gyda'r pwrpas o hyrwyddo twf busnes mewn ardaloedd Cymraeg a defnydd y Gymraeg mewn busnes. Fel cynllun arloesol roedd cynlluniau pob un o'r 4 sir ychydig yn wahanol. Ynys Môn yw'r unig sir oedd yn darparu grant Arfor penodol i hybu defnydd y Gymraeg mewn busnes, ac er mwyn derbyn y prif grant busnes roedd rhaid i ymgeiswyr fod wedi derbyn adolygiad defnydd iaith Gymraeg - Menter Iaith Môn oedd yn arwain ar weithredu'r elfennau yma. Bu Fforwm Iaith Ynys Môn yn derbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd. Yn ystod 2020/21 rhoddwyd 41 grant iaith a 16 grant busnes Arfor ar Ynys Môn, a gweithredwyd cynllun 'Llwyddo'n Lleol' i hybu mentergarwch pobl ifanc a chyfleon swyddi safon uchel lleol iddynt, ar y cyd efo Cyngor Gwynedd.

## 8.0 Adrodd ar Berfformiad

Mae gan y Cyngor Sir ddyletswydd i gydymffurfio â 10 o Safonau Cadw Cofnodion ac adroddir isod ar y rhain.

### 8.1 Cwynion a Chanmoliaethau Iaith

Isod ceir crynodeb o'r cwynion iaith a'r canmoliaethau iaith a dderbyniwyd:

| **Dyddiad** | **Gwasanaeth a Chategori Safon/au** | **Cwyn** | **Ymateb** |
|---|---|---|---|
| 21.3.21 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Cadarnhad derbyn cofrestriad ar ap gwasanaeth y Cyngor yn wallus. | Ymddiheurwyd i'r achwynydd a gofynnwyd i'r cwmni technegol perthnasol gywiro'r gwall. |
| **Dyddiad** | **Gwasanaeth a Chategori Safon/au** | **Canmoliaeth** | |
| 21.9.20 | Safonau Cyflenwi Gwasanaeth | Gwasanaethau Oedolion wedi derbyn y sylw *"Rhaid i mi ganmol gwasanaethau Môn – cafodd [defnyddiwr gwasanaeth] ofal arbennig yn y Gymraeg drwy eich Gwasanaethau Cymdeithasol. Da iawn Cyngor Môn!"* | |
| 12.11.20 | Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Canmoliaeth ysgrifenedig gan Farnwr Ardal am y nifer uchel o weithwyr cymdeithasol sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg. | |

Ni chafwyd unrhyw ymchwiliadau gan Gomisiynydd y Gymraeg am ddiffyg cydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd.

### 8.2 Sgiliau Iaith Staff – Safonau (170(2) (a)

Mae'r ystadegau a ganlyn yn adrodd ar nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg, gan roi dadansoddiad o lefel y sgiliau iaith fesul gwasanaeth.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| Diffiniadau | |
|---|---|
| 0 | Dim Sgiliau |
| 1 | Yn gallu sgwrsio'n gyffredinol (cyfarchion, enwau, dywediadau, enwau lleoedd) |
| 2 | Yn gallu ateb ymholiadau syml sy'n ymwneud â'r gwaith |
| 3 | Yn gallu cynnal sgwrs â rhywun arall, gyda pheth petruster, am faterion gwaith arferol |
| 4 | Yn gallu siarad yr iaith yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd gyda rhai geiriau Saesneg |
| 5 | Rhugl – yn gallu cynnal sgwrs ac ateb cwestiynau, am gyfnod estynedig pan fo angen |

**Sgiliau Cymraeg fesul Gwasanaeth 2020-21**

**Uwch Dim Arwain (Prif Weithredwr, Prif Weithredwyr Cynorthwyol, Cyfarwyddwyr, Cynorthwywyr Personol)**

Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 6
Nifer y dychweliadau: 6
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 |
| **Canran** | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% |

**Trawsnewid**

Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 74
Nifer y dychweliadau: 74
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer** | 0 | 7 | 3 | 3 | 11 | 50 |
| **Canran** | 0% | 9% | 4% | 4% | 15% | 68% |

**Oedolion**

Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 449
Nifer y dychweliadau: 449
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer** | 21 | 44 | 28 | 25 | 60 | 271 |
| **Canran** | 5% | 10% | 6% | 6% | 13% | 60% |

**Plant**
Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 234
Nifer y dychweliadau: 234
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 5 | 11 | 14 | 12 | 47 | 145 |
| Canran | 2% | 5% | 6% | 5% | 20% | 62% |

**Tai**
Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 149
Nifer y dychweliadau: 149

Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 3 | 5 | 7 | 6 | 19 | 109 |
| Canran | 2% | 3% | 5% | 4% | 13% | 73% |

**Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**
Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 258
Nifer y dychweliadau: 258
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 7 | 25 | 13 | 23 | 39 | 151 |
| Canran | 3% | 10% | 4% | 9% | 15% | 59% |

**Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo**
Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 309
Nifer y dychweliadau: 307
Canran dychweliadau: 99%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 15 | 29 | 16 | 6 | 28 | 213 |
| Canran | 5% | 9% | 5% | 3% | 9% | 69% |

**Dysgu**
Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 86
Nifer y dychweliadau: 86
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 0 | 2 | 2 | 3 | 11 | 68 |
| Canran | 0% | 2% | 2% | 4% | 13% | 79% |

**Busnes y Cyngor**
Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 33
Nifer y dychweliadau: 33

Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 0 | 1 | 0 | 1 | 2 | 29 |
| Canran | 0% | 3% | 0% | 3% | 6% | 88% |

**Adnoddau**
Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 98
Nifer y dychweliadau: 98
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 1 | 5 | 4 | 7 | 7 | 74 |
| Canran | 1% | 5% | 4% | 7% | 7% | 76% |

Mae’r lefel sgiliau iaith ar draws y Cyngor wedi aros yn gyson o’u cymharu â lefelau llynedd. Gwelir rhai staff yn cynyddu eu sgiliau iaith sydd wedi creu nifer o welliannau bychan mewn sawl gwasanaeth ar draws y lefelau. Dengys hyn fod yr ystyriaeth a roddir i’r Gymraeg o fewn prosesau Cynllunio Gweithlu, recriwtio a hyfforddiant yn llwyddo.

Mae nifer y dychweliadau hefyd yn parhau’n uchel eleni, dros 500 o staff cwblhau yn electronic dros Learning Pool. Rydym yn cadw’r data hwn yn gyfredol drwy rannu gwybodaeth am sgiliau iaith eu gweithwyr yn flynyddol efo’r gwasanaethau. Caiff y ffurflen asesu sgiliau iaith hefyd ei chynnwys yn y pecyn gwerthuso blynyddol ar-lein a phapur er mwyn adrodd ar gynnydd yn ogystal â bod yn adran fandadol ar ein system recriwtio ar-lein. Mae cywirdeb ein data yn ein galluogi i gynllunio gweithlu a thargedu hyfforddiant iaith.

**Sgiliau Iaith fesul Canolfan**

**Swyddfa**
Nifer gweithwyr yn y ganolfan: 485
Nifer dychweliadau: 485
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 7 | 21 | 16 | 17 | 75 | 349 |
| Canran | 1% | 4% | 3% | 4% | 16% | 72% |

**Cymuned**

Nifer gweithwyr yn y ganolfan: 808
Nifer dychweliadau: 806
Canran dychweliadau: 99%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 37 | 67 | 44 | 34 | 93 | 531 |
| Canran | 5% | 8% | 5% | 4% | 12% | 66% |

**Preswyl**

Nifer gweithwyr yn y ganolfan: 172
Nifer dychweliadau: 172
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 8 | 15 | 16 | 12 | 21 | 100 |
| Canran | 5% | 9% | 9% | 7% | 12% | 58% |

**Canolfannau Hamdden**

Nifer gweithwyr yn y ganolfan: 151
Nifer dychweliadau: 151
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 6 | 16 | 9 | 19 | 22 | 79 |
| Canran | 4% | 11% | 5% | 13% | 15% | 52% |

**Amgueddfeydd, Archifau a Diwylliant**

Nifer gweithwyr yn y ganolfan: 25
Nifer dychweliadau: 25
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 0 | 0 | 0 | 2 | 6 | 17 |
| Canran | 0% | 0% | 0% | 8% | 24% | 68% |

**Llyfrgelloedd**

Nifer gweithwyr yn y ganolfan: 40
Nifer dychweliadau: 40
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 0 | 2 | 2 | 1 | 5 | 30 |
| Canran | 0% | 5% | 4% | 3% | 13% | 75% |

**Gwastraff**

Nifer gweithwyr yn y ganolfan: 22
Nifer dychweliadau: 22
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 0 | 1 | 1 | 0 | 4 | 16 |
| Canran | 0% | 4% | 5% | 0% | 18% | 73% |

Mae'r data fesul canolfan yn dangos cysondeb o ran lefelau mewn cymhariaeth â llynedd.

**Sgiliau iaith fesul Graddfa**

**Graddfa 1-5**

Nifer y gweithwyr yn y raddfa: 1255
Nifer y dychweliadau: 1253
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 47 | 96 | 69 | 69 | 157 | 815 |
| Canran | 2% | 8% | 6% | 6% | 13% | 65% |

**Graddfa 6-10**

Nifer y gweithwyr yn y raddfa: 451
Nifer y dychweliadau: 451
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 9 | 33 | 21 | 19 | 76 | 293 |
| Canran | 2% | 7% | 5% | 4% | 17% | 65% |

**Prif Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Nifer y gweithwyr yn y raddfa: | 15 |
| Nifer y dychweliadau: | 15 |
| Canran dychweliadau: | 100% |

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 13 |
| Canran | 0% | 0% | 0% | 6% | 7% | 87% |

Unwaith eto eleni gwelir bod canran y dychweliadau yn uchel iawn. Ar gyfer staff mewn rolau graddfa 1-5 gwelwyd gostyngiad yn y staff sy'n nodi sgiliau iaith lefel 0 ac 1 a chynnydd yn y staff sy'n nodi gallu ar lefelau iaith 2-5. Mae lefelau iaith Prif Swyddogion yn parhau yn gyson gyda'r mwyafrif yn nodi sgiliau iaith ar L5, dau arall nodi sgiliau ar L3 & L4.

**Hyfforddiant**

Isod darperir gwybodaeth am y niferoedd a fynychodd y gwahanol lefelau o gymhwyster hyfforddiant iaith am y cyfnod adrodd:

| **Cymhwyster** | **Nifer** |
|---|---|
| Mynediad | 5 |
| Sylfaen | 6 |
| Canolradd | 0 |
| Lefel Uwch | 7 |
| Gloywi | 1 |
| **CYFANSWM** | **19** |

Mae'r nifer sy'n manteisio ar y cyrsiau dysgu Cymraeg eleni wedi gostwng yn sylweddol. Fodd bynnag, mae rhai ffactorau sy'n cyfrannu at y gostyngiad hwn. Yn ystod y pandemig Cofid-19 daeth y sesiynau dysgu Cymraeg wyneb yn wyneb o fewn y dosbarth i ben. O ganlyniad, mae'r dosbarthiadau Cymraeg wythnosol, Cwrs Dwys, allanol a mewnol, wedi cael eu cynnal ar-lein trwy Skype, Zoom neu M Teams. Fel y gwelir o'r ffigyrau uchod, gwelsom rywfaint o ddiddordeb yn y dosbarthiadau Cymraeg wythnosol allanol. Fodd bynnag, 'roedd llai o ddiddordeb yn y dosbarthiadau Cymraeg wythnosol fewnol, felly mae'r rhain wedi'u gohirio am weddill 2020. Fodd bynnag, mae llawer o'r staff sy'n mynychu Cwrs Dwys mewnol a oedd am barhau â'u gwersi drwy bandemig Cofid-19 wedi gwneud hynny drwy'r dosbarthiadau Cymraeg wythnosol allanol.

Yn ogystal â sesiynau Dysgu Cymraeg rhithiol, mae yna hefyd adnoddau a chyfleoedd arall mae staff wedi gallu manteisio arnynt i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn ystod y flwyddyn. Mae'r pecyn E-ddysgu "Croeso Cymraeg i Ddechreuwyr" yn parhau i gael ei farchnata yn ogystal mae diddordeb hefyd yn yr E-Ddysgu "Gwella Cymraeg Gwaith". Mae'r cyrsiau Nant Gwrtheyrn wedi cael ei marchnata hefyd, gyda 2 aelod staff yn cymryd y cyfle i fynychu'r cyrsiau yma. Mae 6 aelod o staff hefyd wedi mynychu cwrs deuddydd, "Gloywi Iaith Cymraeg" yn rhithiol, i helpu datblygu sgiliau ysgrifennu a darllen.

Darperir elfen o hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith dan y Cynllun Anwytho Staff. Yn ystod y cyfnod adrodd dan sylw fe'i derbyniwyd gan 31 o staff newydd.

**Iaith cyrsiau hyfforddiant (170(2) (b) a 170(2) (c))**

Yn ystod y pandemig Cofid-19, mae'r rhan fwyaf o sesiynau hyfforddiant staff wedi bod yn rhithiol, trwy Ms Teams neu Zoom. Yn ystod y cyfnod yma, 'rydym wedi parhau i gynnig dewis iaith i staff wrth gynnal hyfforddiant ar lein. Wrth geisio am le ar gwrs, mae modd i staff nodi ar y ffurflen gais os ydynt yn dymuno mynychu cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg a threfnir cyrsiau hyfforddiant yn unol â'r gofyn. Mae'r cyrsiau hanfodol yr Awdurdod sydd yn cael ei drefnu yn rheolaidd hefyd yn cynnig dewis iaith i'r aelod o staff, ac fe all yr aelod staff dewis pa iaith dymunent ymuno â'r sesiwn.

Ein nod ydi dynodi a chofnodi pob sesiwn hyfforddi a gynhelir yn fewnol, fel Cymraeg, Saesneg neu yn Ddwyieithog. Yn anffodus, nid yw'r dewisiadau cofnodi o fewn y sustem Adnoddau Dynol yn ddelfrydol ar gyfer casglu data o'r fath, er mae addasiadau trwy law yn digwydd i sicrhau fod y data mor gyfredol â phosib, ac felly'n bwysig nodi hyn wrth ystyried y ffigyrau a nodir isod.

O ran y cyrsiau a ddynodir fel Dwyieithog, gall hyn olygu fod un ai'r Hyfforddwr yn gallu cyflwyno'r sesiwn yn ddwyieithog neu fod darpariaeth cyfieithu ar gael i allu cyfieithu ar y pryd. Yn hynny o beth mae'n golygu fod aelodau staff yn gallu gofyn/ateb cwestiynau yn ei dewis iaith.

Mae'r tabl isod yn ystyried hyfforddiant sydd wedi cael ei gynnig yn fewnol dros y flwyddyn, ac yn dangos y nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg a Dwyieithog yn ystod y flwyddyn.

| | |
|---|---|
| Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn | 105 |
| Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigwyd gennych yn y Dwyieithog yn ystod y flwyddyn | 646 |
| Canran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg | 25% |

Mae'n amlwg o'r tabl uchod, lle mae cyrsiau wedi bod yn Gymraeg ac yn Saesneg, bod y nifer sy'n manteisio ar y cyrsiau Cymraeg wedi bod yn is nag mewn blynyddoedd blaenorol. Gall hyn fod o ganlyniad i lawer o'r cyrsiau hyfforddi sy'n cael eu cynnal o fewn pandemig Cofid-19 yn cael eu cyfyngu i hyfforddiant gorfodol yn unig, gyda chyrsiau mwy technegol fel Diogelu Data yn cael ei blaenoriaethu. Felly, gyda llai o gyrsiau ar gael eleni, efallai fod hyn wedi gostwng lefel y nifer sy'n manteisio ar gyrsiau cyfrwng Cymraeg. Gall hyn hefyd fod o ganlyniad i natur ddigidol yr hyfforddiant, a newid sydyn yr amgylchedd dysgu.

Cafodd y platfform E-Ddysgu, sef “Cronfa Dysgu” (neu Learning Pool), ei lansio yn fwy eang i’r gweithlu yn ystod y flwyddyn 2020/2021 er mwyn cefnogi datblygiad staff yn ystod yr argyfwng Cofid. Er mwyn sicrhau fod y platform yn adnodd dwyieithog ac yn cynnig dewis iaith i’r defnyddiwr, mae’r Awdurdod wedi buddsoddi adnoddau ychwanegol i sicrhau fod hyn yn digwydd.

**Categoreiddio Swyddi (170(2) (ch))**

Gwelir isod nifer y swyddi newydd a’r swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl y gofynion ieithyddol.

| **Gofynion ieithyddol swyddi a hysbysebwyd 2020-2021** | |
|---|---|
| Cyfanswm nifer y swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol | 341 |
| Nifer y swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 1 | 24 |
| Nifer y swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 2 | 6 |
| Nifer y swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 3 | 153 |
| Nifer y swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 4 | 36 |
| Nifer y swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 5 | 126 |
| Swyddi lle bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i’r swydd | 0 |
| Swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol | 0 |
| Swyddi lle nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol | 0 |
| Cyfanswm y swyddi a hysbysebwyd | 499 |

Fel rhan o’r broses recriwtio flaenorol, mae gofyn i reolwyr gofnodi os yw’r gallu i gyfathrebu drwy’r Gymraeg yn hanfodol neu’n ddymunol ar gyfer deilydd y swydd. Fodd bynnag, cyflwynwyd canllawiau newydd yn Ebrill 2019 sy’n nodi isafswm gofynion ieithyddol ar gyfer gwahanol gategorïau o swyddi. Mae’r canllawiau hyn wedi llwyddo i osod disgwyliadau clir ar reolwyr ac ymgeiswyr fel ei gilydd. Yn dilyn hyn, nid ydym bellach yn categoreiddio'r swyddi fel rhai Hanfodol a Dymunol; yn lle hynny, mae pob swydd yn cael lefel iaith a ddymunir rhwng Lefelau 0 - 5. Gallwn weld bod y ddau lefel a nodwyd fwyaf ar gyfer y flwyddyn 2020 - 2021 rhwng L3 a L5.

## 9.0 Casgliadau ac argymhellion

Mae’r cyfnod Cofid-19 wedi darparu heriau newydd gyda rhan fwyaf o staff y Cyngor yn gweithio o bell a chanolfannau hamdden, llyfrgelloedd ac atyniadau wedi bod ar gau am gyfnodau, dim pwyllgorau wyneb yn wyneb a nifer o weithgareddau hyrwyddo wedi gorfod cael eu hatal. Mae’r Cyngor wedi ceisio ymateb yn gadarnhaol i’r heriau hyn trwy gynnig darpariaeth rithiol pan fo’n ymarferol bosib.

Wrth edrych ymlaen, bydd y Cyngor yn parhau i fanteisio ar bob cyfle i ddatblygu a chryfhau'r prosesau sydd ganddo mewn lle i sicrhau cydymffurfiaeth â’r Safonau Iaith Gymraeg. Rhagwelir yn y cyfnod nesaf y bydd angen rhoi sylw penodol i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif lifo i holl gynlluniau Adfer y Cyngor.

**Mehefin 2021**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **15 Mehefin, 2021** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2021/22** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2021/22<br>**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â'r blaenoriaethau corfforaethol sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022 a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal<br>• Integreiddio<br>• Cydweithio<br>• Cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]** |
| **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |

| |
|---|
| |

| 5 – Cefndir / Cyd-destun |
|---|

**1. Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

**2. Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2017/2022 a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

---

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu

2.4 **Effaith yr Argyfwng presennol ar Raglen Waith y Pwyllgor**

Mae'r cyfnod presennol (**rheoli ymateb argyfwng i'r Pandemig, yr Adfer ac yn raddol dychwelyd i'r Normal Newydd**) yn eithriadol o heriol i'r Cyngor a bob sefydliad cyhoeddus arall drwy Gymru wrth i ni barhau i wynebu heriau'r argyfwng Covid-19, ac mae'n anorfod bod hyn yn cael effaith ar raglen waith y Pwyllgor. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi newid ei ffordd o weithio o ganlyniad i'r argyfwng iechyd byd-eang. Yn ystod cyfnod o argyfwng fel hyn, mae llywodraethu ac atebolrwydd yn allweddol bwysig.

Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn cynnig model sgriwtini penodol yn sgil y pandemig, sydd ar y cyd â Strategaeth Bwyllgorau'r Cyngor yn gymorth i lywio rhaglen waith y Pwyllgor, gweler amlinelliad ohono isod:

i. Ffocws ar nifer llai o faterion allweddol sy'n canolbwyntio ar agweddau sylfaenol bywyd pobl leol ("*life and limb*")
ii. Cynnal briff gwylio dros wasanaethau'r Cyngor, perfformiad a materion ariannol
iii. **Elfennau penodol y Model Craffu:**
  - Trosolwg o ymateb y Cyngor i Covid-19
  - Trosolwg penodol ar faterion sylfaenol bywyd (deddfwriaeth gofal; diogelu plant ac oedolion; iechyd cyhoeddus)
  - Cynnal trosolwg ar faterion cyllidol y Cyngor
  - Gweithredu fel cyfrwng ar gyfer profiadau cymunedol.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2021/22 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 11 Mawrth, 2020

| |
|---|
| Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:<br>• Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022)<br>• Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini). |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2021/22 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2021→ Medi, 2021**
**[Fersiwn ddyddiedig 07/06/21]**

**Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd**
Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mehefin, 2021 (07/06/21)** | **Mehefin, 2021 (15/06/21)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2020/21 | Diweddariad gan Brif Weithredwr BIPBC |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2020/21 |
| Data Digartrefedd y Gwasanaeth Tai (Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, 08/03/2021) | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | |
| **Gorffennaf, 2021 (08/07/21)** | **Mehefin, 2021 (28/06/2021)** |
| Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020/21 | Adroddiad Blynyddol 2020-21 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2020/21 |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | |
| **Medi, 2021 (13/09/21)** | **Medi, 2021 (20/09/21)** |
| Monitro Perfformiad Ch1: 2021/22 (i'w gadarnhau) | Diogelu Corfforaethol |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Cynnydd Chwarter 1 2021-22 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru (i'w gadarnhau) |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Hydref, 2021 (14/10/21)** | **Hydref, 2021 (19/10/21)** |
| Cynllun Cyflawni Blynyddol 2020/21 | Craffu ar Bartneriaethau |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22 | |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Tachwedd, 2021 (01/11/21)- Cyllideb 2022/23** | **Tachwedd, 2021 (09/11/21)** |
| Cynigion Drafft Cychwynnol Cyllideb 2022/23 | Adroddiad Blynyddol – Partneriaeth Diogelwch Cymunedol |
| Cynllun Ymgynghori Cyhoeddus ar gyfer Cyllideb 2022/23 | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus- Trefniadau Llywodraethu |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Adroddiad Cynnydd Chwarter 2 (2021-22) Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| **Tachwedd, 2021 (16/11/21)- Ch.2** | |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2021/22 | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| | |
| | |

**Eitemau i'w rhaglennu**

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardaloedd Seiriol / Amlwch | Trawsnewid Cyfleon Dydd Anableddau Dysgu |
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2022/23 | Cynlluniau Adfer (Covid-19) |
| Cynllun Rheoli Asedau / Man-ddaliadau | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9)- 2020/21 |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2022/23 | |
| Cynlluniau Adfer (Covid-19) | |